Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Llawlyfr Myfyrwyr
2011-2012

Ffordd Senghennydd, Caerdydd CF24 4AG
Ffôn: 029 2087 0000
Ffacs: 029 2066 8935
Ebost: **Dysgu@caerdydd.ac.uk**
www.caerdydd.ac.uk/learn

Llawlyfr Myfyrwyr
2011-2012

Croeso

Croeso i rifyn newydd Llawlyfr Myfyrwyr Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes.

Mae'r llawlyfr wedi ei gynllunio i'ch helpu i wybod mwy am y Ganolfan, eich cyrsiau a'r Brifysgol yn gyffredinol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am adnoddau a gwasanaethau; myfyrwyr anabl; polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau; credydau, achredu, cymwysterau a gwobrau; ac asesu a marcio.

Ceir gwybodaeth gyffredinol ar gyfer yr holl fyfyrwyr yn Rhannau 1, 2, 3 a 4. Yn Adrannau 5, 6 a 7 ceir gwybodaeth am gredydau, asesu a chymwysterau ynghyd â chyngor ar astudio, gan gynnwys ysgrifennu traethodau, prosiectau a thraethodau estynedig a llunio cyfeiriadau, i fyfyrwyr yn dilyn cyrsiau sydd wedi eu hachredu.

Gobeithiwn y bydd y llawlyfr hwn o gymorth, ac os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer ei wella neu ychwanegu ato yn y dyfodol, cysylltwch un ai â chynrychiolwyr y myfyrwyr neu â Gwasanaethau Myfyrwyr (ebost dysgu@caerdydd.ac.uk)

Eich Prospectws (*Choices*)

Mae'r Ganolfan yn cynhyrchu prospectws o gyrsiau ddwywaith y flwyddyn, o'r enw Choices. Cyhoeddir y prif brospectws ym mis Gorffennaf ac mae'n cynnwys yr holl gyrsiau ar gyfer tymor yr Hydref a'r cyrsiau y gwyddom andanynt fydd yn cael eu cynnal yn nhymhorau'r Gwanwyn a'r Haf. Cyhoeddir rhifyn y Gwanwyn yn gynnar ym mis Rhagfyr, ac mae'n rhestru'r holl gyrsiau fydd yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd. Byddwn yn hysbysebu ysgolion haf drwy daflenni unigol.

Os ydych wedi dilyn cwrs o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf yna dylech dderbyn rhifynnau cyfredol Choices drwy'r post wrth iddynt gael eu cyhoeddi. Os ydych yn dod at ein cyrsiau am y tro cyntaf neu os nad ydych wedi derbyn Choices ar adeg pryd y teimlwch y dylech fod wedi gwneud, cysylltwch â'n Derbynfa (029 2087 0000). Bydd y Dderbynfa hefyd yn gallu rhoi manylion am gyrsiau penodol i chi.

Os ydych yn medru defnyddio'r rhyngrwyd yna gallwch fwrw golwg ar y prospectws cyfredol ac hefyd ystod o wybodaeth arall drwy ein gwefan:

www.caerdydd.ac.uk/learn

Caiff y wefan ei diweddaru bob dydd ac mae'n cynnwys manylion am bob cwrs a digwyddiad.

Mae 'Canllaw Dysgu', sef adnodd newydd sy'n cynnig cyngor ar sut gallwch ddatblygu dulliau astudio effeithiol, wedi'i gynnwys yn yr adran 'Gwybodaeth i Fyfyrwyr'.

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy ebost ar **dysgu@caerdydd.ac.uk**

Cynnwys

	Rhan	Tudalen
	Cynllunio Datblygu Personol (PDP)	**8**
	RHAN 1 Gwybodaeth am Adnoddau, Gwasanaethau a Chefnogaeth	**14**
1.	Defnyddio'r holl Ganolfannau Adnoddau (Llyfrgelloedd)	14
2.	Cael Cardiau Llyfrgell / Adnabod	15
3.	Cyfrif am ddim ar y System Gyfrifiaduro	15
4.	Defnyddio'r Gwasanaeth Gyrfáu	17
5.	Ymuno ag Undeb y Myfyrwyr a Chyfleoedd i Ymuno â Grwpiau a Chymdeithasau	19
6.	Defnydd llawn o Gyfleusterau Chwaraeon y Brifysgol	19
7.	Cymorth a Chyfarwyddyd gan Diwtoriaid	20
8.	Cynrychiolwyr y Myfyrwyr a'r Panel Staff-Myfyrwyr	21
	RHAN 2 Myfyrwyr Anabl	**24**
1.	Yr adnoddau sydd ar gael i fyfyrwyr ag anableddau, dyslecsia, a phroblemau iechyd tymor hir	24
2.	Datgelu anableddau	24
3.	Ein helpu ni i'ch helpu chi	24
4.	Ymwybyddiaeth o anabledd i'r holl fyfyrwyr	25
	RHAN 3 Polisïau, Gweithdrefnau a Rheoliadau	**26**
1.	Nodyn i Fyfyrwyr	26
2.	Côd Ymddygiad i Fyfyrwyr	27
3.	Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr	28
4.	Gweithdrefn Cwynion	29
5.	Gweithdrefnau Cyfrifon ar Gyfrifiaduron	30
6.	Gweithdrefnau Diogelwch	30
7.	Gweithdrefnau diogelwch ar deithiau maes	31
8.	Rhoi gwybod am Amgylchiadau Esgusodol	31
	RHAN 4 Adborth Gan Fyfyrwyr	**32**
1.	Ffurflenni Gwerthuso Cyrsiau	32
2.	Cynrychiolwyr y Myfyrwyr a'r Panel Staff-Myfyrwyr	32

	Rhan	Tudalen
	RHAN 5 Credydau, Achredu, Cymwysterau a Gwobrau	**34**
1.	Beth yw credydau?	34
2.	Beth yw ystyr y lefelau gwahanol o gredydau?	34
3.	Sut gallaf ennill credydau?	34
4.	Faint o waith fydd rhaid i mi ei wneud?	34
5.	Sut byddaf i'n gwybod fy mod wedi ennill credydau?	35
6.	At ba gymwysterau y gallaf i anelu?	36
7.	Gwobrau	39
	RHAN 6 Asesu, Meini Prawf Graddio a Chyngor ar Ysgrifennu Asesiadau	**40**
1.	Beth yw asesu?	40
2.	Pa safonau / meini prawf a ddefnyddir?	40
3.	Llên-ladrad ac Arfer Annheg	46
4.	Cyngor ar Ysgrifennu Gwaith i'w Asesu	51
5.	Cynlluniwr Traethodau ar gyfer Traethodau Cyffredinol	52
	RHAN 7 Beth Nesaf? Gwybodaeth am Symud Ymlaen ac Astudio Pellach	**62**
	ATODIAD 1 Rheoliadau ar Gyfer Cynllun Astudio Modiwlar yn Arwain at Dystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol	**64**
	ATODIAD 2 Rheoliadau ar Gyfer Cynllun Astudio Modiwlar yn Arwain at Ddiploma Addysg Uwch y Brifysgol	**66**
	ATODIAD 3 Confensiynau'r Byrddau Arholi	**68**
	Map	**74**

Cysylltu â'r Ganolfan

Os ydych am gael mwy o wybodaeth am aelodau'r staff academaidd neu am y Ganolfan yn gyffredinol ewch at ein gwefan:
www.caerdydd.ac.uk/learn

Staff Academaidd

		cyfeiriad ebost @Caerdydd.ac.uk
Deon Addysg Gydol Oes	Dr Richard Evans	EvansRG
Maes	**Darlithydd Cydlynol**	
Astudiaethau Japaneaidd ac Arabaidd, Astudiaethau/ Ieithoedd Ewropeaidd	Helga Eckart	Eckart
Busnes a Rheoli, y Gyfraith	Jan Stephens	StephensJ4
Astudiaethau Tseineaidd	Yr Athro Siyi Fu	FuS
Cyfrifiaduro	Dr Mike Evans	Evans
Ffrangeg	Dr Catherine Chabert	ChabertC
Dyniaethau	Dr Nick Jones	JonesN3
Cyfieithu ar y pryd	Elsa Cowie	CowieE1
Gwyddoniaeth a'r Amgylchedd	Dr Zbig Sobiesierski	SobiesierskiZ
Astudiaethau Cymdeithasol, Datblygu Hyder, Cwnsela	Jan Stephens	StephensJ4

Staff Gweinyddol

Rheolwr yr Ysgol	Helen Walker	WalkerH
Rheolwr Gweithrediadau	Tina Heard	HeardT
Swyddog Anabledd	Jill Baird	BairdJF1
Gwasanaethau Myfyrwyr	Catrin Salter	SalterC1
Cysylltydd Gweinyddu Cyrsiau	Vikki Payne	PayneV
Cysylltydd Ieithoedd	Siân Austin	AustinS5
Cysylltydd Cofnodion Myfyrwyr (gan gynnwys Achredu)	Joanne Hullah	Hullah
Cysylltydd Cyllid	Rachel Dennis	DennisR1

Dyddiadau Pwysig

Y Brifysgol
Dyddiadau Semestrau a Gwyliau

Semester yr Hydref	Dydd Llun 3 Hydref 2011
	tan Ddydd Sul 29 Ionawr 2012
Gwyliau'r Nadolig	Dydd Sadwrn 17 Rhagfyr 2011
	tan Ddydd Sul 8 Ionawr 2012

Semester y Gwanwyn	Dydd Llun 30 Ionawr 2012
	tan Ddydd Gwener 15 Mehefin 2012
Gwyliau'r Pasg	Dydd Sadwrn 31 Mawrth 2012
	tan Ddydd Sul 22 Ebrill 2012

Y Brifysgol ar gau (dyddiadau cynhwysol)

Ar gau dros y Nadolig	Dydd Sadwrn 17 Rhagfyr 2011
	tan Ddydd Sul 8 Ionawr 2012
Ar gau dros y Pasg	Dydd Sadwrn 31 Mawrth 2012
	tan Ddydd Sul 22 Ebrill 2012
Gwyliau Banc eraill	Dydd Llun 7 Mai 2012
	Dydd Llun 4 Mehefin 2012
	Dydd Mawrth 5 Mehefin 2012
	Dydd Llun 27 Awst 2012

Diwrnodau Agored 2011

Dydd Mawrth 13 Medi 12.00 canol dydd tan 2.00yp a 5.00yp tan 7.00yp

Dydd Sadwrn 17 Medi 11.00yb tan 1.30yp

Rhifau Defnyddiol

◗ Llyfrgell Canolfan Addysg Gydol Oes, Ffordd Senghennydd	2087 4158
◗ Caban y Porthor (LEARN)	2087 6713
◗ Caban y Porthor (Adeilad y Dyniaethau)	2087 6711
◗ Caban y Porthor (Adeilad Trevithick)	2087 6708

Cynllunio Datblygu Personol (PDP)

Mae Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes yn cynnig cyfle i bob myfyriwr gymryd rhan mewn proses o ddatblygu proffesiynol.

1.1 Beth yw Cynllunio Datblygu Personol (PDP)?

Mae Cynllunio Datblygu Personol yn anelu at wella eich dealltwriaeth o'r broses o ddysgu, ac at eich helpu i gael y budd mwyaf o'ch profiad fel myfyriwr drwy eich helpu i gymryd cyfrifoldeb am eich gwaith dysgu eich hun, a thrwy godi eich ymwybyddiaeth o'r gwahanol gyfleoedd datblygu sydd ar gael.

1.2 Pam y mae'n Berthnasol?

Mae pob math o wahanol resymau dros astudio yn y Ganolfan: gwella eich sgiliau, datblygu proffesiynol, paratoi ar gyfer dilyn cwrs gradd, neu er mwynhad pur. Efallai bod dilyn dwrs yn y Ganolfan ar gyfer Addysg Gydol Oes yn rhan o'ch strategaeth datblygu personol chi, neu os ydych yn gweithio, efallai byd hyn yn rhan o'ch Strategaeth Datblygu Proffesiynol Parhaol. Efallai eich bod yn dilyn y cwrs fel cam cyntaf yn ôl at ddysgu, ac er mwyn gweld a yw astudio ar lefel Addysg Uwch yn briodol i chi.

Beth bynnag yw eich cymhelliad dros ddilyn cwrs, mae'r broses Cynllunio Datblygu Personol yn anelu at eich helpu i wneud y gorau o'ch amser yn y brifysgol, a sichrau eich bod yn medru cyrchu'r holl gyfleoedd sydd ar gael.

1.3 Beth yw Strwythur y Broses Cynllunio Datblygu Personol?

Mae'r broses yn y Ganolfan wedi ei seilio ar hunan-asesu personol, meddwl a datblygu.

- Bydd yn dechrau'n anffurfiol pan fyddwch yn cysylltu â'r Ganolfan am y tro cyntaf ynglŷn ag ymrestru. Efallai y byddwch am drafod pa gwrs i'w ddilyn a beth yw'r rheswm dros wneud hynny, neu efallai eich bod wedi cwblhau'r broses hon eich hun yn barod. Y naill ffordd neu'r llall, byddwch wedi cael eich annog i feddwl am ystyriaethau fel pa lefel astudio sydd yn addas i fi, neu a ydw i am gael fy asesu'n ffurfiol.
- Paratoi ar gyfer astudio ar lefel Addysg Uwch – meddwl am y rhesymau dros ddewis eich cwrs, a gofyn beth yr ydych am ei gael o ddilyn y cwrs hwn.
- Meddwl am eich cynnydd – meddwl am sut i fwrw ymlaen o ran modiwlau a chynlluniau astudio pellach a datblygu gyrfa.

1.4 Pa gefnogaeth y byddwch yn ei chael?

Mae fframwaith Cynllunio Datblygu Personol gan y Ganolfan ar gyfer Addysg Gydol Oes, ac fe gewch gefnogaeth drwy gydol y broses. Mae'r fframwaith yn fater o ddewis pur, ac ni fydd asesu ffurfiol. Mae pecyn ar gael yn llawlyfr hwn, gweler tudalennau 10-12.

Er bod y cyfrifoldeb am gymryd rhan yn y broses Cynllunio Datblygu Personol yn fater i'r unigolyn, mae'r Ganolfan wedi ymrwymo i'ch cefnogi chi wrth i chi wneud hyn.

Os ydych am drafod eich datblygiad gyda'ch tiwtor personol, eich cyd-fyfyrwyr neu aelodau o dîm cefnogi'r brifysgol, h.y. cefnogi myfyrwyr, y gwasanaeth gyrfaoedd, bydd hyn yn bosib. Efallai y bydd eich tiwtor yn eich cyfeiro at aelod o'r staff yn y Ganolfan ar gyfer cyfweliad Cynllunio Datblygu Personol neu sesiwn o gyngor os oes angen trafodaeth bellach. Gellir cael mwy o wybodaeth ar: **http://www.caerdydd.ac.uk/learn/student_information/pdp_study skills/pdp.php**

Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes

PDP Ffurflen 1

Bydd y ffurflen hon yn eich helpu i gynllunio'ch astudiaethau. Meddyliwch am brofiadau perthnasol a gawsoch yn y gorffennol a thynnu arnynt ac ar yr uchelgais sydd gennych nawr er mwyn cynllunio sut i lwyddo yn eich cwrs newydd.

Rhowch wybodaeth am eich profiad o addysg yn y gorffennol

.....

.....

Rhowch wybodaeth am eich profiad yn y gweithle hyd yn hyn

.....

.....

Pam y gwnaethoch chi ddewis dilyn cwrs yn y Ganolfan ar gyfer Addysg Gydol Oes?

.....

.....

Beth ydych am ei gael o'r cwrs?

.....

.....

Beth yw eich disgwyliadau am astudio ar lefel AU?

.....

.....

Ydych chi'n pryderu am astudio ar lefel AU?

.....

.....

Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf?

.....

.....

Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes

Cynllun Datblygu Personol Ffurflen 2

Bydd y ffurflen hon yn eich helpu i feddwl am eich profiad, a chofnodi eich cynnydd ar gyfer pob modiwl y byddwch yn ei ddilyn yn y Ganolfan. Os defnyddiwch y ffurflen hon i gofnodi eich cynnydd ar fodiwlau unigol, bydd gennych gofnod gwerthfawr o'ch cynnydd i droi ato yn y dyfodol.

Enw'r Modiwl:

Meddwl - Beth oedd eich disgwyliadau ar gyfer y modiwl?

.....

.....

Cynllunio - Beth oeddech chi'n gobeithio ei gael o'r modiwl? Pa strategaethau y gwnaethoch chi eu defnyddio i sicrhau y byddai eich disgwyliadau yn cael eu gwireddu?

.....

.....

Ystyried - Pa mor effeithiol ydych chi'n meddwl eich bod wedi llwyddo i gwblhau nodau dysgu'r modiwl? Beth aeth yn dda? Beth oedd yn llai llwyddiannus? Beth oeddech chi wedi llwyddo i'w wneud? Beth ddysgoch chi o'r adborth ar eich aseiniadau? Sut brofiad oedd y system asesu?

.....

.....

Cofnodi - Pa fath o waith a wnaethoch chi yn ystod y modiwl hwn e.e. gwaith grŵp, ymchwil annibynnol? Pa sgiliau y gwnaethoch chi eu caffael neu eu datblygu drwy'r modiwl hwn?

.....

.....

Datblygu - Beth ydych yn bwriadu ei wneud nesaf? A fyddwch chi'n defnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd drwy'r modiwl hwn mewn meysydd eraill e.e. y gwaith.

.....

.....

Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes

Cynllun Datblygu Personol Ffurflen 3

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i'ch helpu i ystyried a gwerthuso'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ydy'r cwrs wedi newid y ffordd yr ydych yn meddwl am astudio ar lefel AU?

.....

.....

Beth, yn eich barn chi, yw'r pethau gorau sydd wedi deillio o'r cwrs hwn, yn bersonol ac yn addysgol?

.....

.....

A fyddwch yn defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau yr ydych wedi eu datblygu mewn cyd-destunau eraill?

.....

.....

A wnaethoch chi ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Brifysgol?

.....

.....

Beth nesaf? - Beth yw eich cynlluniau ar gyfer astudio / gwaith pellach?

.....

.....

RHAN 1

Gwybodaeth am Adnoddau, Gwasanaethau a Chefnogaeth

Gan eich bod wedi ymrestru ar un o'n cyrsiau, rydych yn swyddogol yn un o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r wybodaeth ar y tudalennau nesaf yn rhoi gwybod i chi am y manteision a'r adnoddau sydd ar gael i chi. Fe welwch wybodaeth ychwanegol hefyd ar ein gwefan **www.caerdydd.ac.uk/learn** dan y pennawd "Gwybodaeth i Fyfyrwyr" ar y dudalen hafan.

1. Defnyddio'r holl Ganolfannau Adnoddau (Llyfrgelloedd)

Mae gan unrhyw fyfyriwr sydd wedi ymrestru ar gwrs sydd wedi ei achredu yr hawl i ddefnyddio pob un o lyfrgelloedd y Brifysgol. Mae gan fyfyrwyr rhan-amser yr hawl i fenthyg 4 o lyfrau ar y pryd. Mae'n bosibl y bydd lwfans uwch yn daladwy i fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar y Ddiploma (dylai'r myfyrwyr holi yn y llyfrgelloedd unigol). Mae gan y Ganolfan Adnoddau hefyd ddewis o ddefnyddiau sain a fideo y gellir eu benthyg. Bydd hyd y cyfnod benthyg yn dibynnu ar y math o eitem a fenthycir, ond fel arfer caniateir wythnos neu bythefnos.

Mae Canolfan Adnoddau Senghennydd yn yr un adeilad â'r Ganolfan ar gyfer Addysg Gydol Oes. Mae ar agor y rhan fwyaf o'r flwyddyn; **yr oriau agor arferol yn ystod y tymor yw: Dydd Llun tan Ddydd Gwener 08.45 - 21.30, Dydd Sadwrn 10.00 - 17.30 a'r oriau agor yn ystod y gwyliau yw Dydd Llun tan Ddydd Gwener 08.45 - 17.00.**

Fe welwch fod catalog y llyfrgell ar gyfrifiadur. Mae cyfrifiaduron ar gael ym mhob un o'r Canolfannau Adnoddau a dylent eich galluogi i chwilio nid yn unig Gatalog Llyfrgell Prifysgol Caerdydd ond rhai llyfrgelloedd eraill yn ogystal. Mae'r system hefyd yn eich galluogi i drefnu i lyfrau gael eu cadw ar eich cyfer, a'u hadnewyddu.

Er mwyn benthyg o'r Llyfrgell bydd arnoch angen cerdyn adnabod dilys (gweler y tudalen nesaf).

BENTHYG DROS YR HAF

Bydd myfyrwyr sy'n ymrestru dros yr haf ar gyfer cwrs yn yr hydref yn medru cael cerdyn adnabod ym mis Awst, ond ni chaiff ei ddilysu tan 1af Medi pryd y bydd yr hawl i fenthyg yn dechrau.

2. Cael Cardiau Llyfrgell / Adnabod

Bydd angen cerdyn adnabod ar bob myfyriwr, boed yn amser llawn neu ran-amser sydd yn dilyn cwrs sydd wedi ei achredu, er mwyn benthyg llyfrau o'r Llyfrgell/y Ganolfan Adnoddau. Mae cardiau adnabod ar gael o ddechrau mis Awst ymlaen.

Er mwyn cael cerdyn adnabod, ewch â'ch derbynneb neu lythyr yn cadarnhau eich bod wedi ymrestru (gellir ei gael o'r Dderbynfa yn y Ganolfan) i Ganolfan Adnoddau Senghennydd. Yno bydd rhywun yn cymryd ffoto ohonoch, ac fe gewch gerdyn llyfrgell yn y fan a'r lle. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael Llun-Gwener 10.00am - 8.30pm a Sad 10.00am - 5.00pm yn ystod y semester (yn y tymor yn unig). Yn ystod y gwyliau bydd y gwasanaeth yn gorffen am 4.30pm ac nid yw ar gael ar Ddydd Sadwrn. Gall fod rhaid aros ychydig (tua 10-15 munud) ar yr adegau prysuraf.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau am gardiau adnabod.

3. Cyfrif am ddim ar y System Gyfrifiaduro

Mae gan bawb sydd yn dilyn cyrsiau sydd wedi eu hachredu yr hawl i ddefnyddio rhwydwaith gyfrifiaduro'r Brifysgol. Os ydych am ddefnyddio adnoddau cyfrifiaduro bydd angen cyfrinair arnoch. Os yw eich cwrs yn cynnwys cyfrifiaduro fe drefnir hyn gan eich tiwtor heb i chi orfod gwneud dim. Fel arall, bydd angen i chi ofyn yn ffurfiol am gyfrif a chyfrinair. Gallwch wneud hyn drwy gwblhau ffurflen sydd gan eich tiwtor, neu yn y Dderbynfa. Gall hyn gymryd rhai dyddiau i'w brosesu. Yn yr achos hwn, bydd hefyd angen cerdyn adnabod arnoch i ddefnyddio adnoddau cyfrifiaduro ar y campws (gweler yr adran uchod). Mae cyfrineiriau yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, sef ym mis Gorffennaf.

3.1 Ble i gael gafael ar gyfrifiadur

Gall myfyrwyr Addysg Gydol Oes ddefnyddio eu henw defnyddiwr ar unrhyw un o'r cyfrifiaduron sydd ar gael yn y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cwrs gradd yn y Canolfannau Adnoddau.

O fewn y Ganolfan ar gyfer Addysg Gydol Oes mae yna gyfrifiaduron yn y Cyber Café ac yng Nghanolfan Adnoddau Senghennydd.

3.2 Cymorth gyda chyfrifiaduro

Mae Canolfan Gyfrifaduro'r Isadran Gwasanaethau Gwybodaeth yn cynnal gwasanaeth cymorth TG ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (mae help hefyd ar gael o'r Canolfannau Adnoddau). Cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori am gymorth â meddalwedd a'r Ddesg Gymorth i roi gwybod pan fydd rhywbeth o'i le ar yr offer. Gallwch hefyd gael cryn dipyn o wybodaeth berthnasol o'r dogfennau: *Computing at Cardiff a'r Quick Guide.*

3.3 Angen mwy o sgiliau TG?

Mae'r Isadran Gwasanethau Gwybodaeth yn cynnal rhaglen eang o gyrsiau hyfforddi TG sydd ar gael i staff a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r cyrsiau ar lefelau sylfaenol, canolig ac uwch yn y meysydd hyn:

- Sgiliau sylfaenol (cyflwyniad i'r hanfodion)
- Prosesu geiriau
- Taenlenni
- Cronfeydd Data
- Graffeg ar gyfer Cyflwyniadau
- Cyhoeddi pen desg
- Cyhoeddi ar y We
- Gweithgareddau eraill

Mae'r prisiau'n dechrau am ryw £100 am sesiwn hyfforddi undydd. Ceir gwybodaeth fanwl am gyrsiau ar wefan y Grŵp Hyfforddi TG: **http://www.caerdydd.ac.uk/insrv/educationandtraining/index.html**

4. Defnyddio'r Gwasanaeth Gyrfáu

Mae croeso i holl fyfyrwyr Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes ddefnyddio Gwasanaeth Gyrfáu y Brifysgol, sydd ar agor o Ddydd Llun tan Ddydd Gwener 9am tan 5pm. Os ydych yn dychwelyd i'r gweithle, yn newid gyrfa, yn awyddus i gael cyngor ar eich CV neu am gael ychydig o gyfeiriad, gallwch drefnu apwyntiad.

Gallwch drefnu apwyntiad drwy eu system fwcio ar-lein yn **www.careers.caerdydd.ac.uk/booking/** neu drwy ffonio'r **Dderbynfa Gyrfáu ar 029 2087 4828.** Gallwch hefyd ebostio eich ymholiadau parthed gyrfáu drwy'r adran E-gyngor o'r wefan **www.cardiff.ac.uk/carsv**

Mae'r Gwasanaeth Gyrfáu yn **50 Plas y Parc** ac mae yno lyfrgell yn llawn o ddeunydd ar yrfáu, y gallwch ei ddarllen yno neu ei gymryd i ffwrdd, yn ogystal â chyfleusterau cyfrifiaduro. Maent hefyd yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau am yrfáu deirgwaith y flwyddyn. Cysylltwch â nhw ymlaen llaw i drafod unrhyw anghenion mynediad penodol all fod gennych.

5. Ymuno ag Undeb y Myfyrwyr a Chyfleoedd i Ymuno â Grwpiau a Chymdeithasau

Os ymrestrwch i wneud 60 credyd mewn unrhyw flwyddyn academaidd, mae gennych hawl i ymuno ag Undeb y Myfyrwyr fel Aelod Cyswllt. Bydd yn ofynnol ichi ddangos cadarnhad oddi wrth y Ganolfa Addysg Gydol Oes eich bod wedi ymrestru ar 60 neu fwy o gredydau, a dylech gysylltu â Helen Walker os oes arnoch angen y cadarnhad (gweler tudalen 6 i gael y manylion cysylltu).

Bydd Cerdyn Undeb yn rhoi nifer o fanteision ichi y mae aelodau amser-llawn hawl i'w cael e.e. ymaelodi â grwpiau a chymdeithasau. I gael rhagor o wybodaeth am y manteision a sut i gofrestru, gweler **http://www.cardiffstudents.com/** neu ffoniwch 029 2078 1400.

6. Defnydd llawn o Gyfleusterau Chwaraeon y Brifysgol

Mae gan bob myfyriwr yn dilyn cwrs sydd wedi ei achredu yr hawl i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn am bris gostyngol. Bydd angen i chi fynd â'ch cerdyn adnabod cyfredol i brofi eich bod yn fyfyriwr yn y Ganolfan.

Mae Gwasanaeth Chwaraeon Prifysgol Caerdydd yn cwmpasu 3 safle ac mae'r ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn cynnig rhywbeth i bawb.

6.1 Pwy sydd yn cael defnyddio'r cyfleusterau?

Mae'r cyfleusterau ar agor i fyfyrwyr, staff a defnyddwyr allanol drwy'r flwyddyn. Caiff myfyrwyr a staff dalu pris gostyngol. Rhaid i bawb sydd yn defnyddio'r cyfleusterau fod dros 16 oed onibai eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd gydag oedolyn neu yn mynychu sesiwn a drefnwyd yn arbennig fel parti i blant.

6.2 Gwesteion a defnyddwyr allanol

Mae croeso i gwsmeriaid allanol ddefnyddio'r cyfleusterau o dalu'r pris cyfredol ar gyfer defnyddwyr allanol. Gwiriwch **http://www.cardiff.ac.uk/sport/index.html** neu alw 029 2087 4045 am wybodaeth bellach.

7. Cymorth a Chyfarwyddyd gan Diwtoriaid

Mae pob tiwtor yn disgwyl rhoi cymorth, cyngor a chyfarwyddyd i'w myfyrwyr. Os oes arnoch eisiau cyngor, dylech siarad â thiwtor eich cwrs. Os na all eich tiwtor cwrs helpu (neu os yw'r mater yn un nad ydych yn awyddus i ymgynghori â'r tiwtor yn ei gylch) yna dylech gysylltu â Darlithydd Cydlynol y pwnc hwnnw yn y lle cyntaf (gweler y Rhestr Staff ar dudalen 6).

Mae'r ***Cod Ymarfer*** isod yn nodi'r fframwaith y mae'r cyngor a'r cyfarwyddyd y gallwch eu disgwyl wedi'u seilio arno yn ffurfiol:

7.1 Cod Ymarfer

Mae'r Ganolfan yn ceisio rhoi cyngor a chymorth academaidd i'w myfyrwyr rhan-amser fel a ganlyn:

1. Cyn ymrestru, mae cyngor academaidd ynghylch pa gyrsiau neu ba becyn o gyrsiau a fyddai'n fwyaf addas at anghenion unigolyn ar gael gan Ddarlithydd Cydlynol pob pwnc.
2. Yn achos myfyrwyr sydd wedi ymrestru, eu tiwtor cwrs fel rheol fydd eu pwynt cysylltu cyntaf ar gyfer pob ymholiad ynglŷn â chyngor a chyfarwyddyd.
3. Pan godir materion gan fyfyrwyr nad oes modd i'r tiwtor cwrs eu datrys, os bydd y myfyrwyr o'r farn nad yw'n briodol codi mater penodol gyda'r tiwtor cwrs neu pan nad yw'n briodol i'r tiwtor roi cyngor (e.e. os oes angen cyngor arbenigol), rhaid i'r mater gael ei gyfeirio yn y lle cyntaf at ddarlithydd Cydlynol y pwnc hwnnw, neu'r arbenigydd perthnasol e.e. Swyddog Anabledd.
4. Y Cyfarwyddwr Astudiaethau fydd cysylltydd dynodedig y Ganolfan a bydd yn bwynt cysylltu arall i'r myfyrwyr os bydd anawsterau'n dal heb e datrys ar ôl ymgynghori â'r Darlithydd Cydlynol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr Astudiaethau gyflyno adroddiad i'r Pennaeth Ysgol a'r Bwrdd Astudiaethau fel y bo'n briodol a chydlynu'r holl faterion ynglŷn â'r Cod Ymarfer hwn.
5. Rhaid i'r Cod Ymarfer hwn gael ei grynhoi a'i gyhoeddi yn Llawlyfr y Ganolfan i Fyfyrwyr a Staff.

   Y Cyfarwyddwr Astudiaethau yw'r Dr Zbig Sobiesierski. **(SobiesierskiZ@caerdydd.ac.uk)**

8. Cynrychiolwyr y Myfyrwyr a'r Panel Staff-Myfyrwyr

Mae'r Ganolfan yn sicrhau bod cyfle i'r myfyrwyr leisio barn ac i'r diben hwn sefydlwyd Panel Staff-Myfyrwyr. Mae hefyd gynrycholwyr gan y myfyrwyr ar y Byrddau Astudiaethau er mwyn iddynt fod â rhan ym mywyd y Ganolfan a sicrhau y gwrandewir ar farn y myfyrwyr ar faterion academaidd. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys enwau'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr presennol, ar gael ar Hysbysfwrdd y cynrychiolwyr myfyrwyr y tu allan i'r dderbynfa ac ar y we.

Os ydych am gysylltu â'r cynrychiolwyr, gallwch wneud hynny drwy adael neges yn y Dderbynfa fydd yn cael ei rhoi ym mlwch post Cynrychiolwyr y Myfyrwyr. Neu fel arall gallwch gysylltu â nhw drwy ein cyfeiriad ebost: **dysgu@caerdydd.ac.uk**

8.1 Beth y mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn ei wneud?

Rôl Cynrychiolwyr y Myfyrwyr yw cyflwyno perspectif y myfyrwyr ar waith y Ganolfan i'r Staff. Gofynnwn i Gynrychiolwyr y Myfyrwyr holi barn eu cyd-fyfyrwyr o ystod o wahanol bynciau ac o wahanol ardaloedd (mae siarad i bobl yn ystod yr hoe coffi yn ddelfrydol), ac wedyn i ddod â'r adborth hwn i'r Panel Staff-Myfyrwyr ac i'r Bwrdd Astudiaethau. Mae dau gyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd bob blwyddyn, fel arfer y Dydd Gwener cyntaf ym mis Tachwedd a'r Dydd Gwener cyntaf ym mis Mawrth. Mae'r Panel Staff-Myfyrwyr yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, fel arfer ym mis Ionawr a Mis Mai/Mehefin. Rhoddir crynodeb o'r cyfarfodydd hyn ar yr Hysbysfwrdd Cynrychiolwyr y Myfyrwyr sydd ar lawr gwaelod y Ganolfan ar bwys y Dderbynfa.

8.2 A hoffech chi fod yn un o gynrychiolwyr y myfyrwyr?

Bydd gan Gynrychiolwyr y Myfyrwyr ran fwy sylweddol ym mywyd y Ganolfan, yn ogystal â'r cyrsiau yn maent yn eu dilyn. Sylwch hefyd y telir costau am fynychu cyfarfodydd ac y cynigir un cwrs yn rhad ac am ddim i bob un o Gynrychiolwyr y Myfyrwyr bob blwyddyn academaidd.

8.3 Diddordeb gennych mewn bod yn un o gynrychiolwyr y myfyrwyr?

Cysylltwch â Helen Walker ar 029 2087 5201 neu WalkerH@caerdydd.ac.uk neu Dderbynfa'r Ganolfan ar 029 2087 0000, neu **dysgu@caerdydd.ac.uk**

RHAN 2

Myfyrwyr Anabl

1. Yr adnoddau sydd ar gael i fyfyrwyr ag anableddau, dislecsia, a phroblemau iechyd tymor hir

Yng Nghanolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes rydym yn awyddus i sicrhau bod pawb yn cael y budd mwyaf posib o'u cyrsiau. Oherwydd hyn rydym wedi prynu ystod eang o offer y gall ein myfyrwyr eu benthyg o'r llyfrgell. Rydym wedi prynu popeth o beiriannau recordio ar dâp, gwirwyr sillafu, a gwydrau chwyddo tudalen, i allweddellau cyfrifiadur gyda chyferbyniad cryf. Yr unig beth y mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd i Lyfrgell Ffordd Senghennydd a gofyn am yr eitemau yr ydych am eu benthyg. Caiff y rhan fwyaf ohonynt eu pasio i chi yn yr un ffordd â llyfrau, tra bod rhai eraill ar gyfer defnydd yn y llyfrgell yn unig. Os nad ydych yn gallu cael gafael ar yr eitem sydd ei angen arnoch ar gyfer eich anabledd, anfonwch ebost at Jill Baird **BairdJF1@caerdydd.ac.uk**

2. Datgelu anableddau

Pan fyddwch yn sôn wrthym am anabledd ar eich ffurflen ymrestru, nid ydym yn rhoi gwybod i'ch tiwtor, onibai eich bod yn gofyn i ni wneud hyn. Mae hyn er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cadw preifatrwydd a Gwarchod Gwybodaeth. Felly os ydych am i'ch tiwtor gael gwybod am ryw agwedd ar eich anabledd, ac nid ydych wedi derbyn ffurflen ddatgelu, cysylltwch â ni ar bob cyfrif cyn gynted â phosib. Anfonwch ebost at Jill Baird **BairdJF1@caerdydd.ac.uk**

3. Ein helpu ni i'ch helpu chi

Fel unrhyw sefydliad mawr, nid ydym bob tro yn llwyddo i gael popeth yn iawn, ond rydym yn awyddus i wella eich profiad o ddysgu. Anfonwch ebost a dweud wrthym os ydych yn credu y gallwn wella rhyw agwedd o'r ddarpariaeth. Yn ogystal, os ydych yn profi anawsterau penodol gyda'ch cwrs, cysylltwch â **dysgu@caerdydd.ac.uk**

Os ydych yn credu, ar ôl gwneud hyn, nad yw eich problemau wedi eu datrys, gallwch gysylltu â'r Dr Zbig Sobiesierski (Cyfarwyddwr Astudiaethau) neu Dr Richard Evans (Deon Addysg Gydol Oes). Ffoniwch 029 2087 0000 neu ymweld â'r Dderbynfa i drefnu apwyntiad.

4. Ymwybyddiaeth o anabledd i'r holl fyfyrwyr

Rydym am sicrhau bod pawb yn mwynhau'r profiad o astudio yma gyda ni yng Nghanolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes, ac mae hyn yn cynnwys trafodaethau mewn grŵp a gwaith prosiect.

Dyma rai awgrymiadau fydd yn sicrhau bod pawb yn eich grŵp yn teimlo'n gyfforddus.

1. Os bydd un o'ch cyd-fyfyrwyr yn defnyddio Gweithiwr Cefnogi Cyfathrebu (e.e. cyfieithydd iaith arwyddion), peidiwch â chyffroi a siarad dros bobl eraill. Mae'n amhosib cyfieithu dau berson yr un pryd.
2. Os ydych yn cadeirio trafodaeth mewn grŵp, mae'n syniad da crynhoi cwestiynau neu ddatganiadau a wneir gan aelodau eraill o'r grŵp, yn enwedig os yw'r person sy'n siarad yn eistedd y tu ôl i rywun sydd yn fyddar neu yn drwm ei glyw, a dim modd felly i'r myfyriwr hwnnw ddarllen gwefusau yr un sy'n siarad.
3. Os yw'r person anabl gyda rhywun arall, siaradwch yn uniongyrchol â'r person anabl, nid â'r person arall. Mae hyn yn wir hefyd am berson byddar sydd yno gyda chyfieithydd iaith arwyddion.
4. Os oes angen i rywun ddarllen gwefusau, sicrhewch fod eich wyneb yn y golau, edrychwch yn syth at y person a siarad yn glir ac yn naturiol - cofiwch gadw eich dwylo i ffwrdd o'ch wyneb.
5. Pan fyddwch yn cwrdd â rhywun dall am y tro cyntaf, cyflwynwch eich hun. Pan fyddwch yn symud i ffwrdd, dwedwch wrtho/i. Peidiwch â gadael rhywun yn siarad â lle gwag.
6. Pan fyddwch yn gweithio gyda rhywun sydd â nam ar y lleferydd, canolbwyntiwch ar yr hyn sydd yn cael ei ddweud, byddwch yn amyneddgar, a pheidiwch â thrio dyfalu beth y mae am ei ddweud. Os nad ydych yn deall, peidiwch ag esgus eich bod.
7. Pan fyddwch yn gweithio gyda rhywun sydd mewn cadair olwyn, triwch sicrhau bod eich llygaid ar yr un lefel, efallai drwy eistedd i lawr. Peidiwch â phwyso ar y gadair olwyn – mae'n rhan o ofod personol y person arall.
8. Peidiwch â gofyn cwestiynau personol am anabledd rhywun, fel "Gawsoch chi eich geni fel hyn?" Ar y llaw arall, os ydych yn cymryd rhan mewn tasg fel grŵp, ac yn poeni nad yw'r person yma'n cymryd rhan yn gyfforddus, mae'n iawn i ofyn rhywbeth fel "Ydych chi'n gyfforddus gyda'r gweithgaredd hwn?"

RHAN 3

Polisïau, Gweithdrefnau a Rheoliadau

Pan fyddwch yn ymrestru gyda ni rydych yn dod yn un o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd, ac fel y cyfryw fe'ch rhwymir gan nifer o bolisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys rhai y Ganolfan:

- Côd Ymddygiad i Fyfyrwyr
- Gweithdrefnau Disgyblu Myfyrwyr
- Gweithdrefnau Cwynion
- Gweithdrefnau Cyfrifon ar Gyfrifiaduron
- Gweithdrefnau Diogelwch

Rhoddir gwybodaeth am yr uchod yn y tudalennau sydd yn dilyn

Yn ogystal mae polisïau a rheoliadau'r Brifysgol hefyd yn effeithio arnoch. Gellir eu gweld yn y Llawlyfr Rheoliadau Academaidd neu ar brif wefan Prifysgol Caerdydd. Dylech fod yn ymwybodol, yn arbennig, o'r canlynol:

- Polisi Cyfle Cyfartal (Rhan 3)
- Polisi Cydraddoldeb Hiliol (Rhan 3)
- Rheoliadau'r Gwasanaethau Gwybodaeth (Rhan 4)
- Gwarchod Data (Rhan 3)

Am wybodaeth bellach ewch i **www.caerdydd.ac.uk/regis/sfs/regs/**

1. Nodyn i fyfyrwyr

Bydd pob mater sy'n codi o'r ffaith eich bod wedi cofrestru yn fyfyriwr yng Nghanolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr ac maent o dan awdurdodaeth Llysoedd Cymru a Lloegr yn unig. Gellir cyfeirio cwynion mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi o'r ffaith eich bod wedi cofrestru'n fyfyriwr at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, ond dim ond ar ôl i bob gweithdrefn fewnol gael ei dihysbyddu.

2. Côd Ymddygiad i Fyfyrwyr

1. Ni ddylai myfyriwr ymddwyn mewn ffordd fydd yn achosi tramgwydd yn erbyn person; yn creu trafferth; yn difrodi, anharddu, cymryd ar gam neu gamddefnyddio unrhyw eiddo sydd yn perthyn i'r Brifysgol; neu fel arall ymddwyn mewn ffordd bydd yn gwneud drwg i enw da'r Brifysgol neu fydd yn debyg o achosi tramgwydd i eraill.
2. Ni ddylai myfyriwr ymddwyn mewn ffordd sydd yn torri ar draws neu sydd yn debyg o dorri ar draws addysgu, astudio, arholi, ymchwil, gweinyddiaeth neu weithgareddau cymdeithasol yn y Brifysgol neu sydd yn llesteirio neu yn debygol o lesteirio unrhyw fyfyriwr sydd yn astudio neu unrhyw berson a gyflogir gan y Brifysgol wrth ei g/waith.
3. Rhaid i fyfyriwr adael unrhyw fan sydd yn perthyn i'r Brifysgol neu i Undeb y Myfyrwyr, neu unrhyw fan arall a ddefnyddir yn swyddogol gan y Brifysgol, pan ofynnir iddo/i yn rhesymol gan unrhywun a gyflogir gan y Brifysgol.
4. Ni ddylai myfyriwr ymhel ag unrhyw weithred sydd yn amhriodol neu yn anonest o safbwynt safonau academaidd, na chwaith fod â rhan mewn gweithred o'r math hwn.
5. Rhaid i fyfyriwr gydymffurfio â phob gofyniad parthed diogelwch.
6. Bydd y Brifysgol yn cadw perthynas adeiladol gyda'r Heddlu, bydd yn cydweithredu'n llawn ag unrhyw ymholiad ar ran yr Heddlu, a bydd yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r Heddlu am unrhyw fater sydd yn eu tyb yn drosedd difrifol, neu lle mae'r Brifysgol yn ystyried bod hyn yn briodol.
7. Lle bo hi'n ymddangos bod trosedd yn erbyn y Côd Ymarfer uchod wedi digwydd, gweithredir Gweithdrefn Disgyblu'r Ganolfan.

3. Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr

Bydd y weithdrefn hon yn briodol ar gyfer holl fyfyrwyr y Ganolfan, hynny yw, unrhywun sydd wedi ymrestru ar un o gyrsiau'r Ganolfan:

1. Yn achos trosedd honedig yn erbyn Côd Ymddygiad Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes, gwneir asesiad rhagarweiniol gan y Deon Addysg Gydol Oes (neu'r sawl a ddewisir ganddo/i) i weld a oes modd datrys y mater heb fod angen gweithdrefnau disgyblu ffurfiol.
2. Ar ôl asesiad rhagarweiniol o'r digwyddiad honedig, bydd gan y Deon Addysg Gydol Oes (neu'r sawl a ddewisir ganddo/i yr hawl i wneud un o'r canlynol:

- Gwrthod y cwyn
- Delio â'r cwyn o fewn y Ganolfan
- Trosglwyddo'r cwyn i'r swyddog hŷn perthnasol o fewn y Brifysgol
- Trosglwyddo'r mater i'r heddlu

3. Yn yr achosion hynny lle delir â'r cwyn o fewn y Ganolfan, dilynir y drefn ganlynol:

- Bydd y Deon Addysg Gydol Oes (neu'r sawl a ddewisir ganddo/i) yn ymchwilio'r cwyn (fydd yn cynnwys cysylltu â'r person y cwynir amdano/i).
- Bydd y Deon Addysg Gydol Oes fel arfer yn ysgrifennu at y person y cwynir amdano/i ac yn gofyn am ymateb ysgrifenedig oddiwrtho/i o fewn 10 diwrnod gwaith.
- Mewn sefyllfa arbennig e.e. cwrs preswyl neu gwrs byr, bydd hawl gan y Deon Addysg Gydol Oes i ddelio â'r cwyn yn bersonol, er mwyn ei ddatrys ar unwaith.
- Gwahoddir y person y cwynir amdano'i i ymateb i'r cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith pellach.

4. Ar ôl derbyn ymateb oddi wrth y person y cwynir amdano/i, neu yn niffyg ymateb ar ôl 10 diwrnod gwaith, bydd y Deon Addysg Gydol Oes yn gwneud penderfyniad am gynnwys y cwyn ac yn cymryd un neu ragor o'r camau canlynol:

- gwneud dim

- cyflwyno rhybudd na fydd yn cael ei nodi ar gofnod y myfyriwr
- cyflwyno rhybudd fydd yn cael ei nodi ar gofnod y myfyriwr
- cyflwyno cerydd fydd yn cael ei nodi yn erbyn y myfyriwr yn y Ganolfan ac a fydd yn cynnwys rhybudd ffurfiol y bydd y cerydd hwn yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ddelio ag unrhyw gamymddwyn yn y dyfodol
- cyflwyno rhybudd terfynol
- gwahardd y myfyriwr o'r cwrs ar unwaith
- gwahardd y myfyriwr o'r cwrs ar unwaith a'i g/wahardd o gyrsiau eraill y Ganolfan un ai am gyfnod penodol neu am gyfnod amhenodol
- gwahardd y myfyriwr o'r cwrs ar unwaith a'i g/wahardd o gyrsiau eraill y Ganolfan ac o adeilad(au)'r Ganolfan un ai am gyfnod penodol neu am gyfnod amhenodol
- trosglwyddo'r mater i swyddog hŷn perthnasol o fewn y Brifysgol

5. Os deliwyd â myfyriwr o dan 3 uchod, bydd ganddo/i yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn, at Brif Weithredwr y Brifysgol yn yr achos cyntaf. Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith a rhaid cynnwys datganiad ysgrifenedig o'r sail i'r apêl.

4. Gweithdrefn Cwynion

Mae Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes wedi ymrwymo i ddarparu addysg o safon uchel mewn amgylchedd dysgu o safon uchel. Anogir myfyrwyr i gymryd cyfrifoldeb am roi gwybod am eu hanghenion a gofyn am gymorth o fewn y Ganolfan. Os yw myfyriwr yn teimlo bod unrhyw agwedd o'u profiad yn y Ganolfan yn cyfiawnhau cwyn, gall y Deon Addysg Gydol Oes neu'r Rheolwr Ysgol eich cynorthwyo a'ch chynghori ar y weithdrefn briodol i'w dilyn.

Mae gwybodaeth gyffredinol am Weithdrefn Cwynion y Brifysgol ar wefan y Brifysgol sef **www.caerdydd.ac.uk/regis/sfs/regs**

5. Gweithdrefnau Cyfrifon ar Gyfrifiaduron

1. Dim ond myfyrwyr ar gyrsiau sydd wedi eu hachredu sydd â'r hawl i gyfrif cyfrifiadur ym Mhrifysgol Caerdydd.
2. Ni threfnir cyfrif nes bod y Ganolfan wedi derbyn tâl gan y myfyriwr.
3. Bydd y cyfrifon yn aros ar agor tan ddiwedd y sesiwn academaidd, ac ar ôl hyn byddant yn cael eu dileu heb roi rhybudd – cynghorir myfyrwyr i wneud copi o unrhyw ffeiliau yr hoffent eu cadw cyn diwedd y flwyddyn academaidd.
4. Os na ddefnyddir cyfrif am gyfnod o fwy na 3 mis gall gael ei ddileu.
5. Bydd angen i fyfyrwyr sydd yn ymrestru ar gwrs yn ystod y flwyddyn academaidd ddilynol wneud cais o'r newydd am gyfrif.
6. Rheolir defnydd derbyniol o gyfrifon gan Reoliadau'r Brifysgol.
7. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl mynediad at gyfrif cyfrifiadur, a hyn heb roi rhybudd os ystyrir bod defnydd amhriodol yn cael ei wneud o adnoddau'r Brifysgol.

6. Gweithdrefnau Diogelwch

Bydd cyhoeddiad ar ddechrau'r dosbarth cyntaf i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau yn achos argyfwng lle bydd rhaid gadael yr adeilad, neu ddamwain. Ar y campws, mae tryloywderau diogelwch ym mhob ystafell ddosbarth a dylid bod yn hawdd eu gweld; nodir ffyrdd allan yn y coridorau. I ffwrdd o'r campws, a wnewch chi nodi beth yw'r gweithdrefnau argyfwng lleol.

Os byddwch yn darganfod tân:

- canwch y larwm drwy dorri'r gwydr yn y man galw agosaf;
- galwch am gymorth;
- peidiwch ag ymladd y tân onibai ei bod yn ddiogel i wneud hynny;
- defnyddiwch y diffoddwr cywir bob tro

Os byddwch yn clywed y larwm:

- caewch pob drws a ffenestr ar eich ôl a gadael drwy'r allanfa agosaf;
- peiodiwch ag aros i gasglu eiddo personol;
- peidiwch â defnyddio'r lifftiau;
- deialwch 999 i sicrhau bod y Frigad Dân wedi ei galw.

Ar ôl gadael yr adeilad:

- symudwch i ffwrdd o'r adeilad;
- ymgynullwch yn y man cyfarfod a nodwyd;
- gadewch le clir ar gyfer y Gwasanaethau Brys;
- peidiwch â cheisio mynd yn ôl i'r adeilad nes y dywedir wrthych ei bod yn ddiogel i wneud hyn.

Damweiniau:

- gofynnwch am help gan rywun â gwybodaeth cymorth cyntaf yng nghyffiniau'r ddamwain;
- rhowch wybod i Borthor/Derbynnydd/Rheolwr Safle yn y cyffiniau;
- os oes unrhyw amheuaeth am gyflwr y claf, deialwch 999 a gofyn am y Gwasanaeth Ambiwlans;

7. Gweithdrefnau diogelwch ar deithiau maes

Mae'r Ganolfan yn dilyn Arweinlyfr y Brifysgol ar Ddiogelwch mewn Gwaith Maes pan fydd yn cynnal Teithiau Gwaith Maes neu Deithiau Astudio.

Mae copi o ddau lawlyfr ar gael yn y Ganolfan ar gyfer Addysg Gydol Oes, sef Guidance on the Use of Minibuses a Guidance on Safety in Fieldwork. Gellir hefyd gael gafael arnynt o'r Swyddfa Ddiogelwch, yn 51 Plas y Parc.

8. Rhoi Gwybod am Amgylchiadau Esgusodol

Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr weithiau'n dioddef amgylchiadau personol, fel salwch neu farwolaeth, ac yn y blaen, a all darfu'n ddifrifol ar eu gallu i astudio a/neu effeithio ar eu perfformiad mewn asesiad.

Mae'r Brifysgol yn ystyried bod **AMGYLCHIADAU ESGUSODOL** yn amgylchiadau:

- sydd wedi'ch atal chi rhag cyflawni yn ôl eich lefel arferol mewn asesiad; **ac**
- nad oes modd eu rhagweld neu eu hosgoi; **ac**
- sy'n digwydd o fewn ychydig amser i'r asesiad sydd wedi'i effeithio.

Os ydych o'r farn eich bod wedi dioddef amgylchiadau esgusodol pan rydych yn dilyn cwrs a ddarperir gan Ganolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes, dylech roi gwybod am hyn yn ysgrifenedig i Ddarlithydd Cydlynol y pwnc rydych chi'n ei astudio, cyn gynted â phosibl.

I gael rhagor o wybodaeth am y mathau o amgylchiadau sy'n debygol/annhebygol o gael eu derbyn, gweler:
http://learning.caerdydd.ac.uk/themes/assessment/extcircs

RHAN 4
Adborth Gan Fyfyrwyr

1. Ffurflenni Gwerthuso Cyrsiau

Ar ddiwedd y cwrs fe roddir i chi, neu anfonir atoch ffurflen Gwerthuso Cwrs. Ffordd o sicrhau safonau yw'r ffurflenni hyn. Ar ôl iddynt gael eu casglu, maent yn cael eu rhoi i'r Darlithydd Cydlynol ar gyfer y maes. Edrychir ar y ffurflenni fesul cwrs, ac fe asesir a oes angen unrhyw ymateb. Gall hyn olygu newid rywfaint ar y cwrs y tro nesaf iddo gael ei gynnal, neu ofyn i'r sawl sydd yn trefnu ystafelloedd i wneud rhai newidiadau. Mae'r ffurflenni'n ddienw, felly os ydych am gael ateb, bydd angen i chi ysgrifennu llythyr atom yn ogystal.

Gallwch un ai gwblhau'r ffurflen ym mhresenoldeb eich tiwtor a'i rhoi yn ôl iddo/i, neu gallwch ei chymryd i ffwrdd i'w chwlbhau ac wedyn ei tharo i mewn yn y Dderbynfa yn y Ganolfan, neu ei anfon yn ôl i'r Ganolfan drwy'r post.

Pan fydd rhywbeth pwysig yn codi yn y ffurflenni gwerthuso, fe'i cymerir i ystyriaeth ym Mwrdd Astudiaethau'r Ganolfan. Rhoddir nodiadau perthnasol o'r cyfarfodydd hyn ar yr Hysbysfwrdd i Fyfyrwyr sydd ar y llawr gwaelod ar bwys y Dderbynfa.

2. Cynrychiolwyr y Myfyrwyr a'r Panel Staff-Myfyrwyr

Mae'r Ganolfan hefyd yn sicrhau bod cyfle i fyfyrwyr leisio barn drwy gynrychiolwyr y myfyrwyr a'r Panel Staff a Myfyrwyr. Caiff myfyrwyr hefyd eu cynrychioli ar y Byrddau Astudiaethau fel bo modd iddynt gymryd rhan fwy ym mywyd y Ganolfan a sicrhau y telir sylw i farn myfyrwyr ar faterion academaidd.

Os ydych am gysylltu â'ch cynrychiolwyr, gallwch wneud hynny drwy adael neges yn y Dderbynfa fydd yn cael ei rhoi ym mlwch post Cynrychiolwyr y Myfyrwyr. Fel arall gallwch gysylltu â nhw drwy ein cyfeiriad ebost: **dysgu@caerdydd.ac.uk**. Gweler Rhan 8.1 (tudalen 22) am fwy o wybodaeth am gynrychiolwyr y myfyrwyr, a sut i ddod yn un o Gynrychiolwyr y Myfyrwyr.

RHAN 5

Credydau, Achredu, Cymwysterau a Gwobrau

1. Beth yw credydau?

Mae credydau yn rhan o gynllun cenedlaethol sydd yn eich galluogi i weithio tuag at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol yn y rhan fwyaf o brifysgolion. Mae credydau yn gydnabyddiaeth gan y brifysgol eich bod wedi cwblhau uned o astudiaethau yn llwyddiannus. Fel arfer fe drefnir credydau fesul 10 neu luosrifau o 10. Maent yn nodi'r lefel lle rydych yn gweithio, a faint o waith oedd ei angen.

Ym Mhrifysgol Caerdydd, gelwir pob uned o astudio yn fodiwl ac mae pob modiwl fel arfer yn werth 10, 20 neu 30 o gredydau. Yng Nghanolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes rydym yn galw'r modiwlau hyn yn "gyrsiau" ac mae'r nifer o gredydau ar gyfer pob cwrs i'w weld yn Choices ac ar ein Taflenni Cyrsiau.

2. Beth yw ystyr y lefelau gwahanol o gredydau?

Cynigir credydau ar wahanol lefelau fel y nodir isod:

Lefel 0 sydd yn cyfateb i astudio ar lefel cyn cwrs gradd

Lefel 1 sydd yn cyfateb o ran safon i flwyddyn gyntaf cwrs gradd

Lefel 2 sydd yn cyfateb o ran safon i ail flwyddyn cwrs gradd

3. Sut gallaf ennill credydau?

Os ydych wedi ymrestru ar gwrs sy'n cynnig credydau yna mae angen ichi gwblhau'r asesiadau yn llwyddiannus (gweler rhan 6 am wybodaeth bellach ar asesiadau).

4. Faint o waith fydd rhaid i mi ei wneud?

Mae manylion pellach am yr asesiadau sydd yn gysylltiedig â phob cwrs ar gael o'r Taflenni Cyrsiau ac o Diwtor eich cwrs.

5. Sut byddaf i'n gwybod fy mod wedi ennill credydau?

Os ydych wedi gwneud yr asesiadau, ar ddiwedd y cwrs fe roddir ffurflen i chi sydd yn nodi'r nifer o gredydau a enillwyd a marc dros dro. *Cadwch hon fel cofnod o'r credydau a enillwyd.*

Y Ffurflen Asesu yw eich dolen gyswllt gyda'r system gredydau. Bydd y manylion arni, ynghyd â sampl o'r gwaith a wnaethpwyd gan y dosbarth (all fod yn cynnwys peth o'ch gwaith chi) yn mynd at y darlithydd cydlynol ar gyfer y maes. Bydd ef/hi yn trefnu unrhyw ail farcio angenrheidiol ac yn anfon y gwaith at safonwr ar gyfer y maes. Ar ôl hyn caiff yr holl ganlyniadau eu harolygu, yn gyntaf gan fwrdd arholi pwnc ac wedyn gan fwrdd arholi'r ganolfan gyda'i arholwyr allanol ei hun. Bwriad deublyg sydd i hyn: sicrhau bod y marcio i gyd ar yr un lefel a sicrhau ei fod yn cyfateb i farcio ar lefel 1 a 2 mewn prifysgolion eraill tebyg. Er ein bod yn ceisio dychwelyd pob darn o waith i'r myfyrwyr ar ôl y byrddau arholli, **dylech gadw copi o'r holl waith yr ydych yn ei gyflwyno.**

Dim ond ar ôl i'r marciau neu'r graddau sydd yn ymddangos ar eich ffurflen gael eu hystyried gan y ddau fwrdd arholi y gallwn ni ddyfarnu'r credydau i chi yn ffurfiol. Dyma'r rheswm pam mae'r marciau ac ati yn cael eu nodi fel rhai 'dros dro' ar y ffurflen. Fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o'r marciau dros dro yn cael eu cadarnhau gyda newidiadau bach yn unig neu heb unrhyw newid o gwbl, felly ni fyddwn yn cysylltu â chi onibai bod newid sydd yn effeithio ar eich gradd.

Ar ôl i'r credydau gael eu cadarnhau gan y bwrdd arholi ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, fe gânt eu hychwanegu at ein cofnodion. **Os oes arnoch angen cofnod llawn o'ch credydau, gallwch ofyn i'r Ganolfan am *hanes credydau myfyriwr,* fydd yn rhoi'r manylion llawn am y cyrsiau a'r credydau.** Ni fydd yr adysgrif yn dangos y credydau am y flwyddyn gyfredol nes iddynt gael eu pasio gan y bwrdd arholi. Mae'n bosib, yn achos cyrsiau sydd yn rhedeg yn hwyr yn yr haf, na fydd y credydau yn cael eu cadarnhau tan yn hwyrach yn y flwyddyn. Os oes gennych ymholiadau, rhowch alwad i'r Ganolfan a gofyn i'r Dderbynfa am y Swyddog Achredu.

6. At ba gymwysterau y gallaf i anelu?

Yng Nghanolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes cynigwn bedwar cymhwyster, **y Dystysgrif Sylfaenol, y Dystysgrif Addysg Uwch, y Dystysgrif Astudiaethau Pellach ar Lefel 2 a'r Diploma Addysg Uwch.**

6.1 Tystysgrifau Sylfaenol

Cymwysterau'r Ganolfan yw'r Tystysgrifau Sylfaenol ac fe'u dyfernir pan fyddwch wedi ennill 60 o gredydau o fewn un maes. Mewn rhai meysydd, mae'r cyrsiau angenrheidiol wedi eu rhestru ymlaen llaw. Os ydych am anelu at Dystysgrif Sylfaenol, bydd arnoch angen mwy o fanylion o'r ffeil wybodaeth sydd yn y Dderbynfa, o Choices, neu o'r wefan. Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r cyrsiau sydd yn arwain at Dystysgrif Sylfaenol, bydd angen i chi gysylltu â Swyddog Achredu'r Ganolfan i gadarnhau hyn a rhoi gwybod eich bod am dderbyn y cymhwyster.

6.2 Tystysgrif Addysg Uwch

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei gydnabod yn genedlaethol ac fe'i dyfernir gan Brifysgol Caerdydd pan fyddwch wedi ennill 120 o gredydau ar lefel 1 gydag unrhyw gyfuniad o gyrsiau (mae hyn yn cyfateb o ran llwyth gwaith i'r hyn y mae myfyriwr yn ei gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf cwrs gradd amser llawn). Rhaid ennill y cymhwyster hwn o fewn 10 mlynedd. Dim ond unwaith y gellir cyfrif y credydau oddi wrth unrhyw fodiwl unigol wrth weithio tuag at y Dystysgrif. Gellir defnyddio credydau ar lefel 2 yn lle credydau ar lefel 1. Ond cofiwch, os ydych yn bwriadu astudio ymhellach, hy ar gyfer Diploma, na fyddwch yn gallu cyfrif y credydau Lefel 2 hyn tuag at y Diploma hefyd.

6.3 Tystysgrif Astudiaethau Pellach ar Lefel 2

Mae'r Tystysgrifau Astudiaethau Pellach ar Lefel 2 yn gymwysterau gan y Ganolfan, ac fe'u dyfernir pan fyddwch wedi ennill 60 o gredydau o ***fewn un maes ar lefel 2.*** Yn achos y rhan fwyaf o feysydd mae'r cyfuniad angenrheidiol o gyrsiau wedi ei ddiffinio ymlaen llaw.

6.4 Diploma Addysg Uwch

Sylwch fod rhaid i fyfyrwyr sydd am ymrestru ar gyfer y Diploma wneud cais ffurfiol i'r Ganolfan cyn neu wrth iddynt gwblhau 60 credyd o gyrsiau Lefel 2 ar gyfer y Diploma. Gellir cael manylion am sut i ymrestru o'r Ganolfan.

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei gydnabod yn genedlaethol ar lefel 2 ac fe'i dyfernir gan Brifysgol Caerdydd pan fyddwch wedi ennill 120 o gredydau ar lefel 2.

Nid oes angen i chi ymrestru ar gyfer y Diploma er mwyn dilyn cyrsiau Lefel 2, ond os ydych am ymrestru ar gyfer Diploma a gweithio tuag at y cymhwyster hwn, dylech fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Strwythur y Diploma yw cyfres o unedau pwnc y gellir eu cymryd fel Tystysgrifau Astudiaethau Pellach ar Lefel 2 o fewn y Ganolfan.
- Ar hyn o bryd yr unedau pwnc hyn yw:

-Cyfrifiaduro
-Ieithoedd Ewropeaidd

Frangeg (2 uned bwnc ar gael, Ffrangeg a Diwylliant Ffrengig)
Sbaeneg (2 uned bwnc ar gael, Sbaeneg a Diwyllliant Sbaenaidd)
Almaeneg (2 uned bwnc ar gael, Almaeneg a Diwylliant Almaenaidd)
Eidaleg (2 uned bwnc ar gael, Eidaleg a Diwylliant Eidalaidd)

- Mae pob uned pwnc yn cynnwys cyrsiau gwerth 60 o gredydau (fel arfer dau gwrs 30-wythnos, tri chwrs 20-wythnos neu chwe chwrs 10-wythnos, y cyfan ar Lefel 2) sydd wedi eu hachredu yn unswydd ar gyfer hyn.
- Dyfernir y Diploma pan fydd dwy uned bwnc wedi eu cwblhau yn llwyddiannus.
- Bydd y manylion am y cyrsiau sydd yn rhan o'r cynllun Diploma ar gael o'r Ganolfan.
- Mae rhai cyrsiau yn cymryd yn ganiataol fod gennych lefel o arbenigedd yn barod, neu gall fod ganddynt amodau rhagarweiniol y mae'n rhaid i chi eu bodloni cyn ymrestru ar y cwrs.
- Er mwyn bod yn gymwys i ymrestru ar y Diploma rhaid bod gennych yn barod:
  Y Dystysgrif Addysg Uwch; neu
  120 o gredydau ar Lefel 1; neu
  120 o gredydau ar Lefelau 1 a 2, ac heb fod am ddefnyddio'r rhain tuag at gymhwyster ar lefel 2; neu
  cymhwyster sydd yn gyfwerth â'r Dystysgrif, neu sydd yn cynnwys elfen sydd yn gyfwerth (e.e. cymhwyster arall 120 credyd ar Lefel 1 neu gymhwyster fel gradd prifysgol y gellir ei ddefnyddio i ddangos eich bod wedi cwblhau yn llwyddiannus flwyddyn gyntaf cwrs gradd prifysgol).

Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r Ganolfan.

6.5 Gwybodaeth bellach am gymwysterau

Y mae'r dogfennau canlynol sydd yn berthnasol i'r cymwysterau y gallwch anelu atynt ar gael yn **Atodiad 1** ar ddiwedd y Llawlyfr hwn.

- Rheoliadau y Cynllun Astudio Modiwlar ar gyfer Tystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol
- Rheoliadau y Cynllun Astudio Modiwlar ar gyfer Diploma Addysg Uwch y Brifysgol
- Confensiynau'r Byrddau Arholi
  Cysylltwch â'r Ganolfan am gyngor a gwybodaeth ychwanegol ac i gael disgrifiad o'r rhaglenni os bydd eu hangen arnoch.
- Disgrifiad Rhaglen y Dystysgrif Addysg Uwch
- Disgrifiad Rhaglen y Diploma Addysg Uwch

7. Gwobrau

Mae gan y Ganolfan nifer o wobrau a ddyfernir yn flynyddol

Gwobrau D E Evans
Cynigir y gwobrau hyn yn flynyddol er cof am y diweddar D E Evans, y person cyntaf i gael ei benodi yn Diwtor-â-Gofal Efrydiau Allanol yn y Coleg, ac maent yn dod o gronfa a sefydlwyd gan haelioni myfyrwyr a thiwtoriaid. Mae'r gystadleuaeth yn agored i fyfyrwyr Addysg Gydol Oes y Brifysgol ac hefyd i fyfyrwyr Cymdeithas Addysg y Gweithwyr. Os ydych am gynnig am y gystadleuaeth hon, mynnwch air â'ch tiwtor.

Gwobr Elsie Pritchard
Dyfernir y wobr hon yn flynyddol i'r myfyriwr gorau / y fyfyrwraig orau sydd yn cyflwyno gwaith ar un o'r cyrsiau ym meysydd y Gymraeg neu Hanes Lleol. Fe'i dyfernir er cof am Elsie Pritchard. Os ydych am gynnig am y wobr hon, mynnwch air â'ch tiwtor.

Gwobr Adrannol
Dyfernir y Wobr Adrannol yn flynyddol am ymdrech a dyfalbarhad eithriadol; cynnydd eithriadol; ymroddiad eithriadol wrth ymchwilio, paratoi neu gyflwyno gwaith, neu unrhyw gyfraniad arall i ddosbarth.

Gwobr Goffa Patricia Clark
Dyfernir y wobr hon yn flynyddol i fyfyriwr y Dyniaethau sydd naill ai wedi gwneud cynnydd rhagorol drwy gydol y flwyddyn neu sydd wedi ysgrifennu traethawd rhagorol, neu aseiniad arall, ar bwnc sy'n gysylltiedig â thema cwrs y myfyriwr.

Gwobr Gerddoriaeth Leonard a Marian Jones
Gellir dyfarnu'r wobr hon yn flynyddol i fyfyriwr sydd naill ai wedi gwneud cynnydd rhagorol drwy gydol y flwyddyn, neu wedi cwblhau aseiniad eithriadol, ar unrhyw bwnc cerddorol.

RHAN 6

Asesu, Meini Prawf Graddio a Chyngor ar Ysgrifennu Asesiadau

1. Beth yw asesu?

Er mwyn dyfarnu credydau rhaid bod gennym dystiolaeth o'r wybodaeth a'r sgiliau yr ydych wedi eu hennill neu wedi eu gwella. Rhaid i rywfaint o hyn fod mwn ffurf y gellir ei dangos i arholwyr allanol fel bod modd i ni sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau priodol ar draws yr holl ystod cyrsiau a phynciau .

Ni fyddwch yn sefyll arholiadau ffurfiol ond efallai y byddwch yn sefyll profion yn y dosbarth. Efallai y bydd disgwyl i chi ysgrifennu aseiniadau, cadw dyddiadur cwrs neu greu portffolio. Mae ein hasesiadau yn hyblyg er mwyn cwrdd ag anghenion y cwrs a'r unigolyn.

Yr elfen fwyaf pwysig yn y broses hon yw ei bod yn cyfrannu at eich profiad o ddysgu. Mae ein dulliau wedi eu cynllunio er mwyn hybu eich hyder ac fe geisiwn lunio dulliau o asesu sydd yn ddifyr ac yn addas ar gyfer oedolion prysur.

Bydd tiwtoriad eich cyrsiau yn rhoi'r union fanylion ichi am yr asesiadau sydd yn rhan o'ch cwrs yn un o'r cyfarfodydd cyntaf.

Er mwyn ennill credydau ar gyfer cwrs penodol, rhaid i chi wneud pob rhan o'r aseiniad a chyrraedd y safon briodol.

2. Pa safonau/meini prawf graddio a ddefnyddir?

Y mae'r tablau ar y tudalennau sydd yn dilyn yn dangos y meini prawf marcio cyffredinol a fabwysiadwyd gan y Ganolfan ar gyfer asesiadau ysgrifenedig, i gyrsiau lefel 1 a 2. Maent yn dangos y bandiau marciau ac yn rhoi arweiniad ar y meini prawf a'r lefelau cyffredinol y mae angen eu cyrraedd ar gyfer gwaith o fewn y bandiau penodol. Er mwyn cael ei roi o fewn band marciau, rhaid i'r ateb ddangos tystiolaeth o'r rhan fwyaf o'r meini prawf a nodir o dan y radd honno.

Mae gan bob maes gynllun marcio ar gyfer y modiwlau unigol. Mae'r manylion ar gael gan eich tiwtor neu gan Ddarlithydd Cydlynol y pwnc. Gofynnwch i'ch tiwtor os oes gennych unrhyw ansicrwydd am y meini prawf graddio a ddefnyddir ar gyfer eich asesiadau chi.

2.1 Meini Prawf Graddio Cyffredinol ar gyfer Gwaith Ysgrifenedig – Lefel 1

Gradd	Cyfateb i	Ystod Marciau	Meini Prawf
P		Pasio	Defnyddir y radd hon gan y Ganolfan i nodi pasio heb radd arbennig ac fe'i defnyddir fel arfer pan fo marciau yn amhriodol (e.e. gwaith grŵp neu ysgrifennu creadigol), neu lle mae bwrdd y pwnc wedi penderfynu peidio â chofnodi marciau. Mae'n cyfateb i Basio yn Rhan I mewn cwrs gradd, lle na ddangosir graddau ychwaith.
A1	Pasio Eithriadol	90-100	Ateb eithriadol o gryf a chraff, gyda phob un o nodweddion pasio A2 yn cael eu harddangos yn gryf (h.y. gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ymchwilio, sgiliau cyflwyno a sgiliau llyfryddol i gyd yn dda iawn)
A2	Pasio o Safon Abennig	80-89	Ateb rhagorol, yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog, gyda thystiolaeth o rywfaint o ddarllen a dealltwriaeth o ddeunyddiau perthnasol y tu hwnt i'r testunau craidd
			Sylwadau craff, strwythur clir a, lle bo hyn yn briodol, deunydd esboniadol addas
			Dangos yn glir eich bod wedi deall y cwestiwn yn drwyadl ac wedi sylweddoli'r oblygiadau
			Llyfryddiaeth, cyfeiriadau, cyflwyniad a diwyg o safon uchel
A3	Pasio da iawn	70-79	Ateb da iawn, yn dangos cryn wybodaeth a dealltwriaeth, gyda thystiolaeth o rywfaint o ddarllen a dealltwriaeth o ddeunyddiau perthnasol y tu hwnt i'r testunau craidd
			Lle bo hyn y briodol, rhywfaint o wreiddioldeb yn y dewis o ddeunyddiau esboniadol
			Sylwadau gweddol graff a strwythur gweddol glir
			Dangos yn glir eich bod wedi deall y cwestiwn ac wedi sylweddoli'r oblygiadau
			Llyfryddiaeth, cyfeiriadau, cyflwyniad a diwyg o safon dda
B	Pasio da	60-69	Ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth trylwyr ar y cyfan ond heb graffter arbennig
			Defnydd da o'r deunydd a ddysgwyd ar y cwrs a pheth tystiolaeth o ddarllen pellach
			Cywir a rhesymegol ar y cyfan ond heb o angenrheidrwydd fod yn synthesis da o syniadau
			Cyflwyniad, llyfryddiaeth, cyfeiriadau a diwyg derbyniol

C	Pasio'n glir	50-59	Ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth derbyniol, ond sydd yn deillio bron i gyd o ddeunydd a ddysgwyd ar y cwrs
			Dim tystiolaeth o ddarllen pellach, neu braidd dim
			Dim tystiolaeth o feddwl drostoch eich hun, neu braidd dim
			Cyflwyniad, llyfryddiaeth, cyfeiriadau, diwyg, cywirdeb a rhesymu derbyniol ar y cyfan
D	Derbyniol	40-49	Rhywfaint o dystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r pwnc
			Bylchau neu gamgymeriadau sylweddol
			Rhywfaint o ymdrech i lunio cyflwyniad, llyfryddiaeth, cyfeiriadau, diwyg, cywirdeb a rhesymu derbyniol
F1	Methu	30-39	Marc yn dynodi methu
			Ateb annigonol gyda bylchau mawr o ran gwybodaeth a dealltwriaeth
			Bylchau neu gamgymeriadau sylweddol
			Diffygion sylweddol o ran cyflwyniad, llyfryddiaeth, cyfeiriadau, diwyg, cywirdeb neu resymu
F2	Methu	20-29	Marc yn dynodi methu'n ddifrifol
			Ateb annigonol iawn yn dangos ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth
			Bylchau difrifol ac hefyd gamgymeriadau sylweddol
			Diffygion mawr o ran sgiliau dadlau a chyflwyno
F3	Methu	0-19	Marc yn dynodi methu'n dddifrifol iawn
			Yn dangos dim gwybodaeth na dealltwriaeth y gellir eu canfod
			Ychydig o ddeunydd perthnasol, neu dim o gwbl
			Ychydig o dystiolaeth o sgiliau dadlau a chyflwyno, neu dim o gwbl

2.2 Meini Prawf Cyffredinol ar gyfer Gwaith Ysgrifenedig – Lefel 2

Gradd	Cyfateb i	Ystod Marciau	Meini Prawf
A1	Cyntaf Uchel Iawn	90-100	Ateb eithriadol o gryf, gyda phob un o nodweddion A2 yn cael eu harddangos yn gryf (h.y. gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau dadansoddi a gwerthuso, sgiliau ymchwilio, sgiliau cyflwyno a sgiliau llyfryddol i gyd yn dda iawn). Yn eithriadol o graff a gwreiddiol yn y ffordd y cyflwynir syniadau. Yr ateb yn dangos strwythur arbennig o glir a rhesymol
A2	Cyntaf Uchel	80-89	Ateb rhagorol, yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ardderchog gyda thystiolaeth o ddarllen ac ymchwil trylwyr y tu hwnt i'r testunau craidd
			Cyflwyno syniadau mewn ffordd graff a gwreiddiol iawn
			Dangos yn glir eich bod wedi deall y cwestiwn yn drylwyr ac wedi sylweddoli ei oblygiadau
			Sgiliau dadansoddi a gwerthuso o safon uchel
			Llyfryddiaeth, cyfeiriadau, cyflwyniad a diwyg o safon uchel
A3	Cyntaf	70-79	Ateb da iawn, yn dangos cryn wybodaeth a dealltwriaeth, gyda thystiolaeth o ddarllen ac ymchwil y tu hwnt i'r testunau craidd
			Wedi meddwl ymhellach na'r deunydd a ddysgwyd yn y cwrs
			Cyflwyno syniadau mewn ffordd gymharol graff a gwreiddiol
			Dangos yn glir eich bod wedi deall y cwestiwn ac wedi sylweddoli ei oblygiadau
			Tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a gwerthuso cryf
			Llyfryddiaeth, cyfeiriadau, cyflwyniad a diwyg o safon dda
B	2(i)	60-69	Ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ar y cyfan, ond heb fod yn graff nac yn wreiddiol iawn
			Defnydd da o ddeunydd a ddysgwyd ar y cwrs a rhywfaint o dystiolaeth o ddarllen ac ymchwil perthnasol
			Cywir a rhesymegol ar y cyfan ond heb o angerheidrwydd ei lawn angyffred
			Tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a gwerthuso da
			Cyflwyniad, llyfryddiaeth, cyfeiriadau a diwyg derbyniol

C	2(ii)	50-59	Ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth derbyniol, ond sy'n deillio bron yn llwyr o'r deunydd a ddysgwyd ar y cwrs
			Peth tystiolaeth o ddarllen ac ymchwil pellach, ond heb o angenrheidrwydd ei lawn amgyffred
			Dim syniadau gwreiddiol, neu braidd dim
			Peth tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a gwerthuso
			Cyflwyniad, llyfryddiaeth, cyfreiriadau, diwyg a chywirdeb yn dderbyniol ar y cyfan
D	3 ydd	40-49	Peth tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc
			Bylchau neu gamgymeriadau difrifol
			Tystiolaeth brin iawn o sgiliau dadansoddi a gwerthuso
			Peth ymdrech i lunio cyflwyniad, llyfryddiaeth, cyfeiriadau, diwyg a chywirdeb derbyniol
F1	Methu	30-39	Marc yn dynodi methu
			Ateb annigonol gyda bylchau mawr o ran gwybodaeth a dealltwriaeth
			Bylchau difrifol neu gamgymeriadau mawr
			Dim dadansoddi na gwerthuso, neu braidd dim, neu ddiffygion mawr yn y sgiliau hyn
			Diffygion difrifol o ran cyflwyniad, llyfryddiaeth, cyfeiriadau, diwyg a chywirdeb
F2	Methu	20-29	**Marc yn dynodi methu'n ddifrifol**
			Ateb annigonol iawn yn dangos braidd dim gwybodaeth na dealltwriaeth
			Bylchau difrifol ac hefyd gamgymeriadau mawr
			Diffygion mawr o ran sgiliau dadlau, cyflwyno a chydlynu
F3	Methu	0-19	**Marc yn dynodi methu'n ddifrifol iawn**
			Yn dangos dim gwybodaeth na dealltwriaeth y gellir eu canfod
			Dim deunydd perthnasol, neu braidd dim
			Dim tystiolaeth o sgiliau dadlau, cyflwyno a chydlynu, neu braidd dim

3. Llên-ladrad ac Arfer Annheg

Mae llên-ladrad yn broblem ddifrifol. Dengys ymchwil bod rhwng traean a hanner myfyrwyr yn ymhel â llên-ladrad. Mae'n **arfer anonest** sydd yn annheg i fyfyrwyr eraill, a gellir ei ddisgrifio fel 'lladrad academaidd'. Gan fod gwybodaeth erbyn hyn ar gael mewn ffurfiau electronig, mae hefyd yn haws o gryn dipyn i ymhel ag ef, ond hefyd yn haws i'ch tiwtor ei ddarganfod. Yn y pen draw cyfrifoldeb pob myfyriwr yw sicrhau had yw'n ymhel â llên-ladrad, ac mai gwaith gwreiddiol y myfyriwr ei hun yw unrhyw waith sydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer asesiad, boed ffurfiannol neu gyfansymiol.

3.1 Beth yw llên-ladrad?

Mae'r Llawlyfr Rheoliadau Academaidd yn diffinio llên-ladrad fel gwaith sydd yn defnyddio "geiriau a syniadau pobl eraill heb gydnabod hyn". Mae hyn yn cynnwys gwaith myfyriwr arall, ac mae'n cynnwys geiriau a syniadau a gynhyrchwyd mewn unrhyw gyfrwng. Mae'r canlynol i gyd yn enghreifftiau o lên-ladrad:

- Copio deunydd neu syniadau o lyfr cwrs, gwefan, rhaglen gyfrifiadur, neu waith myfyriwr arall, heb gydnabod awdur(on) gwreiddiol y deunydd hwnnw.
- Aralleirio deunydd o ffynonellau eraill, heb gydnabod awdur(on) gwreiddiol y deunydd hwnnw.
- Cyflwyno gwaith a gymerwyd yn rhannol neu yn gyfangwbl o ffynhonnell arall, (e.e. banc traethodau ar y we) a rhoi'r argraff mai eich gwaith chi eich hun ydyw.
- Defnyddio deunydd a syniadau a ddatblygwyd ar y cyd gyda myfyrwyr eraill, fel petai'r geiriau a'r syniadau yn waith a wnaethoch chi eich hunan heb gydweithrediad neb arall. Gall llên-ladrad fod yn weithred fwriadol, ymwybodol, neu yn weithred anfwriadol a achosir gan arferion astudio gwael. Os oes unrhyw amheuaeth mae'n hanfodol eich bod yn gofyn cyngor gan y staff academaidd.

3.2 Pam y dylid osgoi llên-ladrad

Ar wahân i'r gosb a osodir yn yr achosion hynny lle profwyd gweithredu annheg, mae yna nifer o resymau eraill y gellir eu gosod gerbron pam y dylid osgoi llên-ladrad. Maent yn cynnwys y canlynol:

Fe gewch farciau uwch am waith gwreiddiol o'ch eiddo chi eich hun. Drwy ddefnyddio eich syniadau a'ch geiriau eich hun byddwch yn llawer mwy tebyg o ddatblygu dealltwriaeth well a dyfnach o'r maes. Bydd y syniadau hyn yn haws eu cofio mewn sefyllfa asesu. Mae'r rhan fwyaf o dasgau asesu wedi eu cynllunio i asesu eich dealltwriaeth. Bydd defnyddio eich geiriau a'ch syniadau eich hun yn ei gwneud hi'n haws i'r staff weld yr hyn yr ydych wedi ei gyflawni yn y maes. Bydd dangos dealltwriaeth o'r pwnc felly yn creu'r tebygrwydd y bydd marciau uwch a graddau gwell yn cael eu dyfarnu.

Byddwch yn datblygu sgiliau deallusol gwerthfawr. Mae nifer o'r tasgau asesu yn rhoi'r cyfle i arddangos sgiliau deallusol. Bydd gwaith sydd yn defnyddio syniadau gwreiddiol ac yn arddangos tystiolaeth o'r galluoedd hyn yn tueddu i dderbyn graddau uwch. Ymysg y sgiliau hyn mae'r gallu i ddadlau yn rhesymegol, i werthuso tystiolaeth yn feirniadol, ac i ddadansoddi a chyfuno gwybodaeth.

Byddwch yn datblygu sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr. Drwy ddatblygu sgiliau astudio da byddwch hefyd yn datblygu'r ystod priodol o sgiliau ar gyfer y gweithle. Mae cyflogwyr potensial yn chwilio yn arbennig am y sgiliau hyn. Maent yn cynnwys y gallu i ystyried a dysgu o brofiad, sgiliau trefnu amser, y sgiliau a gysylltir a chael gafael ar wybodaeth, ei defnyddio a'i gwerthuso, ac yn arbennnig, sgiliau cyfathrebu mewn ffurf ysgrifenedig.

Byddwch yn derbyn marciau am ddyfynnu gweithiau eraill a chyfeirio atynt yn gywir. Mae nifer o Adrannau yn rhoi marciau am nodi cyfeiriadau'n gywir. Drwy ddefnyddio'r confensiynau cyfeirio cywir mae'n bosib y cewch farc uwch. Bydd Staff yn y Canolfannau Adnoddau yn hapus i'ch cynghori ar y dulliau cywir y dylid eu defnyddio.

3.3 Cyngor ar ddulliau astudio da fydd yn eich helpu i osgoi llên-ladrad.

Mae'r cyngor isod yn cynnwys rhai awgrymiadau byr ar ddulliau astudio fydd, os defnyddiwch nhw yn gyson, yn eich helpu i osgoi llên-ladrad 'damweiniol'. Mae cyngor pellach, mwy manwl ar gael o'r Canolfannau Adnoddau, sydd yn cynnwys amrywiaeth o lyfrau ac ati fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau astudio effeithiol.

Datblygwch ddulliau o gymryd nodiadau sydd yn eich gorfodi i ddefnyddio eich geiriau eich hun. Gall nifer o dechnegau eich helpu i wneud hyn. Un ffordd yw nodi'r pwyntiau sydd fwyaf perthnasol i'r pwnc dan sylw, a'u haralleirio yn eich geiriau eich hun. Ffordd arall yw creu diagramau sydd yn eich helpu i weld y berthynas sydd yn bodoli rhwng syniadau allweddol. Triwch eich llaw ac arbrofi gyda dulliau gwahanol. Beth bynnag yw'r dull y byddwch yn ei ddefnyddio, bydd yn werth ymarfer, gan fod y technegau hyn hefyd yn eich helpu i ddatblygu eich arddull ysgrifennu eich hun.



Defnyddiwch eich geiriau eich hun wrth gymryd nodiadau mewn darlith neu seminar. Pan fyddwch yn cymryd nodiadau mewn dosbarthiadau, ceisiwch ymarfer strategaethau gwahanol fydd nid yn unig yn eich helpu i ddeall y prif ddadleuon sydd yn cael eu cyflwyno, ond hefyd yn gadael set o nodiadau y gellir eu defnyddio yn nes ymlaen i atgyfnerthu y ddealltwriaeth honno. Efallai, fodd bynnag, y bydd angen dulliau gwahanol o gymryd nodiadau mewn dosbarthiadau gwahanol. Bydd tiwtoriaid yn hapus i gynnig cyngor ac arweiniad ar y math o nodiadau sydd orau o fewn meysydd penodol.

Sicrhewch eich bod yn rhestru'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ar gyfer aseiniad yn gywir yn eich nodiadau. Os gwnewch chi restru'r adnoddau a ddefnyddiwyd wrth baratoi aseiniad, bydd yn hawdd llunio'r llyfryddiaeth. Ceisiwch gofio cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mae'n hawdd anghofio gwneud hyn, ac fe all fod yn anodd, ac yn waith sydd yn cymryd llawer o amser os bydd rhaid cael gafael ar y cyfeiriadau hyn nes ymlaen.

Sicrhewch eich bod yn cofnodi cyfeiriad llawn yr holl wefannau ar y We Fyd Eang y byddwch yn eu defnyddio. Gall fod yn demtasiwn copio darnau yn syth o'r ffynonellau hyn, ond mae'n werth cofio y bydd y tiwtoriaid yn ymwybodol o gynnwys y ffynonellau da, ac yn gyfarwydd â'r hyn sydd ynddynt. Os dewiswch ddefnyddio ffynonellau llai dibynadwy, efallai y bydd y staff yn llai cyfarwydd â nhw, ond mae'n bosib y byddant yn wallus. Os gwelir bod myfyriwr wedi bod yn defnyddio adnoddau ar y we sydd yn annog twyll, bydd yn wynebu camau disgyblaethol. Mae unrhyw ddefnydd o wasanaethau ar y we o'r math hwn yn annerbyniol. Dylech felly geisio datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i asesu ansawdd gwahanol wefannau. I'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau hyn rhowch gynnig ar 'Internet Detective', cwrs rhyngweithiol ar y We Fyd Eang, a'i gyfeiriad yw: **http://vts.intute.ac.uk/desire/detective/.**

Ceisiwch baratoi eich aseiniadau mewn da bryd. Mae ymchwil yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr sydd yn ymhel â llên-ladrad yn gwneud hyn oherwydd prinder amser. Ac mae llên-ladrad a wneir o dan bwysau amser yn haws ei ddarganfod. Aseiniadau sydd yn gofyn cryn dipyn o amser i'w cwblhau yw prosiectau a thraethodau estynedig, a dylid eu cynllunio ymhell cyn y dyddiad y mae'n rhaid eu cyflwyno.

Ceisiwch ddefnyddio'r holl ystod o ffynonellau gwybodaeth a chyngor sydd ar gael. Yn ogystal â'r deunydd sydd ar gael yn y Canolfannau Adnoddau, mae Banc Sgiliau Caerdydd yn cynnig help a chyngor ymarferol ar sgiliau ysgrifennu, ynghyd â chasgliad o ddefnyddiau dysgu y gellir eu dilyn yn ôl anghenion yr unigolyn, i hogi'r sgiliau hyn [**http://skillsbank.cf.ac.uk/**]. Efallai y bydd y Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr a'r Gwasanaeth Dysgu Saesneg hefyd yn medru helpu, ac mae'r Ganolfan Ysgrifennu yn cynnig gwasanaeth proffesiynol un-i-un, cyfeillgar a chyfrinachol, am ddim i fyfyrwyr sydd â phroblemau ym maes ysgrifennu a sgiliau astudio.

Os oes gennych unrhyw amheuon neu gwestiynau, ceisiwch drafod y pryderon hyn gyda staff academaidd. Byddant yn hapus i gyfarfod a thrafod unrhyw broblemau fydd gennych.

3.4 Beth fydd yn digwydd os byddwch yn ymhel â llên-ladrad?

Yn achos asesiadau cyfansymiol mae'n bosib y bydd myfyrwyr yn wynebu gweithdrefnau 'Arfer Annheg' y Brifysgol. Diffiniwyd asesiadau cyfansymiol fel asesiadau sydd yn mesur a yw'r myfyriwr wedi cyflawnu'r targedau dysgu ar gyfer uned o ddysgu, a pha lefel y mae wedi ei chyrraedd.

3.5 Arfer Annheg

Diffiniwyd hyn yn y Llawlyfr Rheoliadau Academaidd fel **"unrhyw weithred fydd yn galluogi person i gael iddo'i hun neu i rywun arall fantais nad yw'n cael ei chaniatau ac a fydd yn golygu y caiff farc neu radd uwch na'r hyn y byddai fel arall yn medru ei gael yn ôl ei g/alluoedd ei hun".** Rhaid i fyfyrwyr sydd yn ymhel â llên-ladrad drwy ddefnyddio gwaith un neu fwy o bobl eraill a chyflwyno'r gwaith hwnnw, yn gyfan neu yn rhannol, ar gyfer asesiad neu arholiad heb gydnabod y ffynhonnell / ffynonellau yn briodol, fel petai'n waith y myfyriwr ei hun, wynebu'r gweithdrefnau hyn. Os ceir myfyriwr yn euog, bydd yn wynebu un o'r cosbau canlynol:

1. cerydd ffurfiol i'r myfyriwr a chopi yn cael ei roi ar ei ffeil; a/neu,
2. diddymu marciau'r myfyriwr am yr asesiad cyfan neu ran ohono, neu elfen arall o'r asesiad dan sylw, ac, os ystyrir hyn yn briodol, gohirio am un flwyddyn academaidd hawl y myfyriwr i ennill cymhwyster neu symud ymlaen i gam nesaf cynllun astudio; neu,
3. diddymu marciau'r myfyriwr am yr asesiad cyfan, ac, os ystyrir hyn yn briodol, gohirio am un flwyddyn academaidd hawl y myfyriwr i ennill cymhwyster neu symud ymlaen i gam nesaf cynllun astudio; neu,
4. diddymu marciau'r myfyriwr am yr asesiad cyfan, a gwahardd y myfyriwr rhag unrhyw asesiadau yn y dyfodol

Os oes amheuaeth o lên-ladrad mewn asesiad ffurfiannol, bydd tiwtoriaid yn trafod y mater gyda'r myfyriwr, ac yn ei h/atgoffa o ddifrifoldeb yr ymddygiad hwn. Efallai y bydd Adrannau hefyd yn dewis gweithredu pellach, ond yn ddelfrydol dylid defnyddio'r cyfle hwn i bwysleisio'r manteision sydd yn deillio o waith gwreiddiol. Diffiniwyd asesiadau ffurfiannol fel asesiadau sydd yn galluogi myfyrwyr i feddwl am eu cynnydd drwy adborth, ac i gynllunio sut y byddant yn dysgu ac yn datblygu yn y dyfodol, ond nid yw'n cyfrannu tuag at eu cymwysterau terfynol, nac at lefel cyrhaeddiad y rhain.

4. Cyngor ar Ysgrifennu Gwaith i'w Asesu

Bwriedir y tudalennau sy'n dilyn fel arweiniad cyffredinol. Efallai y bydd eich tiwtor am ychwanegu rhywbeth sydd yn fwy uniongyrchol berthnasol i'ch cwrs arbennig chi.

4.1 Ysgrifennu Traethodau

Gall ysgrifennu traethodau fod lawer yn haws os dilynwch nifer fach o gamau syml:

1. **Darllenwch y cwestiwn yn ofalus.** Os nad ydych yn deall y cwestiwn ni fyddwch yn medru ei ateb yn glir a gallech wastraffu cryn dipyn o amser yn chwilio am wybodaeth nad yw'n angerheidiol.

Cynllunio Traethodau

Nifer o eiriau yn fras	Pwnc	Prif Bwyntiau
250	Cyflwyniad	
250	Pwnc 1:	
250	Pwnc 2:	
250	Pwnc 3:	
250	Pwnc 4:	
250	Pwnc 5:	
250	Pwnc 6:	
250	Casgliadau	
Heb gyfrif wrth rifo geiriau	Cyfeiriadau	

Cyfanswm o tua 2000 o eiriau

2. **Edrychwch ar y rhestr ddarllen a roddwyd i chi.** Holwch eich tiwtor a oes angen darllen pob un o'r eitemau a restrwyd neu a oes dewis, ac wedyn cael gafael ar rai o'r llyfrau neu erthyglau a restrwyd. Gallwch, wrth gwrs, edrych ar lyfrau ac erthyglau eraill ond cofiwch ddau beth: yn gyntaf bod syniadau yn newid ac y gall llyfr oedd yn uchel ei barch mewn un degawd fod yn llai felly ar adeg arall; yn ail, nad yw pob peth sydd mewn print o'r un gwerth - mae'n bosib na fydd arolwg o bwnc ar gyfer darllenwyr cyffredinol mor ddefnyddiol nac mor gyfoes â gwaith ysgolheigaidd.
3. **Gwnewch nodiadau ar yr hyn yr ydych yn ei ddarllen** yn eich geiriau eich hun, gan gadw mewn cof o hyd y cwestiwn y mae'n rhaid i chi ei ateb. Cofiwch, os ydych yn mynd i ddyfynnu gair am air neu bron gair am air o ffynhonnell, y bydd angen i chi gyfeirio at yr union dudalennau. **Mae defnyddio dyfyniad heb gydnabod o ble y mae'n dod yn cael ei ystyried yn llên-ladrad** (ymgais i roi'r argraff mai eich gwaith eich hun yw gwaith rhywun arall) ac fe'i cosbir o'r herwydd.
4. Pan fyddwch yn meddwl eich bod wedi casglu digon o ddeunydd ar gyfer eich traethawd, darllenwch drwy eich nodiadau a **gwneud cynllun.**
5. Dylai eich cynllun fod ar ffurf amlinelliad *byr o'r* traethawd, felly bydd arnoch angen:
   a) **cyflwyniad** yn egluro sut y byddwch yn trin y cwestiwn;
   b) **cyfres o bwyntiau (neu syniadau allweddol)** y byddwch yn eu trafod yn eu tro. Gall y rhain fod yn gyfres o gamau cronolegol neu yn gyfres o wahanol agweddau ar y pwnc yr ydych yn ei ddadansoddi. Beth bynnag yw'r pwnc, mae'n bwysig bod gennych syniad clir o sut y byddwch yn ei drafod a'ch bod yn gosod y rhain allan mewn ffordd resymegol;
   c) eich **casgliad,** yn tynnu pwyntiau'r ddadl at ei gilydd ac yn ateb y cwestiwn yn gryno.

   Mae pobl wahanol yn delio â'r dasg o gynllunio mewn ffyrdd gwahanol. I rai pobl drafft rhagarweiniol yw hwn, i bobl eraill rhestr o'r prif benawdau yn unig. Byddwch yn dod i adnabod beth sydd yn addas i chi, ond awgrymir bod angen o leiaf dudalen A4 gydag amlinelliad byr o'r ffordd yr ydych am ddelio â'r pwnc (y cyflwyniad), cyfres o benawdau fydd yn troi mewn i baragraffau neu adrannau ac amlinelliad o'ch casgliadau.

6. Rydych yn barod nawr i ysgrifennu'r traethawd. Os ydych yn medru defnyddio prosesydd geiriau yn rhwydd, dyma pryd y dylech droi at y cyfrifiadur. Os ydych yn bwriadu ysgrifennu mewn llawysgrifen cofiwch y bydd angen mwy nag un drafft.

7. Byddwch yn siwr eich bod yn ymwybodol o'r nifer o eiriau a nodwyd ar gyfer eich traethawd. Ni fydd y rhan fwyaf o diwtoriaid yn glynu'n llwyr i'r hyd a nodwyd, ond fel arfer nid yw traethodau rhy hir na rhai rhy fyr yn foddhaol (nac yn dderbyniol). Cofiwch fod eich gallu i grynhoi eich deunydd yn bwysig. Os na nodwyd nifer benodol o eiriau, gallwch gymryd y disgwylir traethawd o ryw 1500-2000 o eiriau.

8. Cofiwch na ddisgwylir i chi gyflwyno ffeithiau yn unig wrth ysgrifennu traethawd mewn ateb i gwestiwn, ond hefyd eu defnyddio i gefnogi dadl ac, os yw hyn yn bosib, cofiwch gynnwys rhai o'ch syniadau eich hun.

9. Nodwch eich ffynonellau. Mae hyn yn golygu bod angen, os ydych wedi defnyddio ffaith neu ddadl o lyfr neu erthygl, i chi roi'r manylion am y ffynhonnell hwn a nodi'r union dudalen. Ar ddiwedd y traethawd mae arnoch angen dangos y llyfrau a'r erthyglau y buoch yn eu defnyddio mewn rhestr yn nhrefn y wyddor (h.y. llyfryddiaeth). I'ch helpu, fe roddwyd adran ar Ddyfynnu Cyfeiriadau isod. Yn ogystal, mae Canolfan Adnoddau'r Brifysgol wedi cynhyrchu arweinlyfrau i'ch helpu wrth lunio cyfeiriadau. Mae'r rhain ar gael yn y wefan isod ac yn y llyfrgelloedd.
http://www.caerdydd.ac.uk/insrv/educationandtraining/guides/citingreferences/index.html

   Yn anffodus nid ydynt ar gael eto yn Gymraeg.

10. Mae diwyg da yn bwysig. Barnu eich gwaith fel y gwelir ef y mae'r darllenydd. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn cymryd yn ganiataol, boed yn ymwybodol neu yn yr isymwybod, mai adlewyrchiad o safon y cynnwys yw gramadeg neu sillafu gwallus, neu gyflwyniad diofal. Bydd gofal â'r diwyg a'r defnydd o wiriwr sillafu (os ydych yn defnyddio prosesydd geiriau) yn werth yr ymdrech. Os ydych yn cael trafferth sylwi ar eich camgymeriadau eich hun, beth am ofyn i ffrind ddarllen eich gwaith, neu gysylltu â'r tiwtor Sgiliau Astudio yng Nghanolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes.

11.Yn olaf, peidiwch ag anghofio rhoi eich enw ar eich traethawd.

Sylwch: Er bod y Ganolfan yn cieiso dychwelyd traethodau ar ôl i'r Bwrdd Arholi gyfarfod, **dylech wneud copi o'ch gwaith cyn ei gyflwyno.**

4.2 Prosiectau a Thraethodau Estynedig

Cyflwyniad
Mae prosiectau yn codi fel rhan o amrywiaeth o gyrsiau. Gallant fod yn weithgareddau i'r unigolyn neu i grŵp, ond lle bo hyn yn bosib, fe'u hasesir yn ôl cyfraniad yr unigolyn, fel rhan o'r gwaith ar gyfer modiwl penodol neu'r cyfan ohono. Bwriad prosiectau yw rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau casglu, dadansoddi, trafod a chyflwyno gwybodaeth.

Sut y trefnir prosiectau
Prosiect ar gyfer Grŵp Trefnir y rhain fel prosiect ymchwil ar gyfer grŵp. Bydd nod y prosiect yn cael ei benderfynu gan y tiwtor yn unig neu gan y tiwtor wrth drafod gyda'r grŵp. Lle bo hyn yn bosib, rhaid trefnu'r prosiect mewn ffordd sydd yn sicrhau bod modd nodi cyfraniad yr aelodau unigol.

Prosiect Unigol
Gall gyfrannu at yr asesiad ar gyfer modiwl, neu fod yn asesiad modiwl cyfan. Rhaid i bwnc prosiect unigol gael ei benderfynu drwy drafodaeth gyda thiwtor(iaid) y modiwl a rhaid i'r tiwtor fydd yn cyfarwyddo roi sel ei f/bendith arno.

Ysgrifennu'r prosiect Cyfrifoldeb y myfyriwr neu'r myfyrwyr yw hyn o dan gyfarwyddyd y tiwtor. Fel arfer bydd y prosiect ysgrifenedig yn cynnwys:

a) teitl ac awdur(on);
b) datganiad o'r nodau os nad ydynt yn amlwg neu os nad yw'r prosiect yn rhan o waith ehangach;
c) y dulliau a ddefnyddiwyd wrth ymgymeryd â'r prosiect;
ch) canlyniadau'r ymchwil;
e) trafodaeth o'r canlyniadau;
dd) casgliadau;
g) llyfryddiaeth a rhestr o fyrfoddau (gweler Cyfeirio isod).

Bydd angen i'r rhan fwyaf o brosiectau hefyd gynnwys:

h) crynodeb fer;
i) rhestr o'r cynnwys;
j) manylion y modiwl perthnasol.

Lle bo myfyrwyr yn gweithio ar brosiectau ar eu pen eu hun heb gyswllt uniongyrchol â'r tiwtor, mae'n hanfodol bod cyfarwyddiadau ar gyfer y prosiect penodol hwn yn cael eu rhoi i'r myfyrwyr cyn gynted ag y bo modd. Gofynnwch i'ch tiwtor felly os nad ydych wedi eu derbyn.

4.3 Nodi Cyfeiriadau

Er bod sawl ffordd o nodi cyfeiriadau, argymhellwn eich bod yn defnyddio system Havard.

Addaswyd y canlynol o ddwy ffynhonnell: *Citing Reference,* taflen a gyhoeddwyd gan Wasanaethau Gwybodaeth y Brifysgol ac sydd ar gael yn y Canolfannau Adnoddau (llyfrgelloedd) a'r cyfarwyddiadau ar gyfer traethodau estynedig a gynhyrchwyd gan Gyfadran Hanes Prifysgol Caergrawnt.

4.4 System Harvard

1. Yn y Testun

Rhowch gyfenw'r awdur a'r flwyddyn y cyhoeddwyd y gwaith mewn cromfachau yn y testun, lle byddwch yn nodi cyfeiriad. Onibai bod y cyfeiriad yn un cyffredinol iawn, dylech hefyd ychwanegu rhif y dudalen berthnasol, neu'r tudalennau pethnasol.

Os yw enw'r awdur yn y testun yn barod (e.e. ... fel y dywed Bloggs ...), rhowch y flwyddyn y cyhoeddwyd y gwaith yn unig (e.e. ... fel y dywed Bloggs (1987, t34) ...). Os nad yw, yna rhowch ef yn y cromfachau gyda'r flwyddyn y cyhoeddwyd y gwaith a rhifau'r tudalennau (felly (Bloggs 1987:34).) Os oes dau awdur, rhowch y ddau enw (e.e. Bloggs a Brown 1984 ...). Os oes mwy na dau awdur, rhowch enw'r awdur cyntaf, ac wedyn et al. (e.e. White et al. 1976 ...). Os yw eich awdur wedi cyhoeddi mwy nag un gwaith mewn blwyddyn a chithau'n cyfeirio atynt, defnyddiwch a, b, c ac ati i wahaniaethu rhyngddynt (a chofiwch wirio a ydych wedi addasu eich llyfryddiaeth i gyfateb).

2. Ar ddiwedd y testun

Ar ddiwedd y testun, rhestrwch eich cyfeiriadau yn nhrefn y wyddor yn ôl cyfenw'r awdur. Trefnwch unrhyw gyfeiriadau gan yr un awdur yn ôl y flwyddyn y cyhoeddwyd nhw.

Awgrymir eich bod, yn achos llyfrau, yn rhoi'r wybodaeth y drefn ganlynol: awdur, llythrennau blaen, dyddiad cyhoeddi, teitl y llyfr mewn llythrennau italig, man cyhoeddi, cyhoeddwr.

Awgrymir eich bod, yn achos erthyglau, yn rhoi'r wybodaeth yn y drefn ganlynol: awdur, llythrennau blaen, dyddiad cyhoeddi, teitl yr erthygl mewn dyfynodau, teitl y cylchgrawn mewn llythrennau italig, rhif cyfrol y cylchgrawn, tudalennau'r erthygl gyfan (e.e. 234-345).

Sylwch mai'r man cyhoeddi fel arfer yw prif gyfeiriad y cyhoeddwr. Nid man yr argraffu yw hwn, fydd yn amrywio o lyfr i lyfr o fewn yr un cwmni cyhoeddi.

Prif fantais y system Harvard yw eich bod yn rhoi'r manylion llawn unwaith yn unig, waith pa mor aml y byddwch yn cyfeirio at waith, ac mae'r holl gyfeiriadau yn y testun yn fyr. Mae hefyd yn gwrthbwyso'r duedd i ddefnyddio troednodiadau hir sydd fel arfer yn cynnwys deunydd y byddai'n well ei gynnwys yng nghorff y testun (neu peidio â'i gynnwys o gwbl). Yr anfantais yw nad yw hi bob amser yn glir ar yr olwg gyntaf at ba waith gan awdur penodol yr ydych yn cyfeirio.

my PIN
Nonlinear Optimization

4.5 Byrfoddau a Deunydd sydd heb ei Gyhoeddi

Mae'n well peidio â gorddefnyddio'r byrfoddau am gylchgronau neu gyfresi a ddefnyddir yn aml, ond efallai y bydd yn arbed amser a gofod os oes angen cyfeirio'n gyson at ffynhonnell. Ceisiwch ddefnyddio byrfoddau safonol (edrychwch mewn cylchgrawn yn eich maes sydd yn uchel ei barch) a **sicrhau eich bod yn rhestru'r byrfoddau.**

Efallai y bydd angen i chi gyfeirio at ddeunydd sydd heb ei gyhoeddi. Weithiau mae hyn ar ffurf barn neu wybodaeth a roddwyd i chi gan ymchwilydd arall un ai ar lafar neu mewn llythyr. Yn achos gwybodaeth o'r math hwn mae'n arferol cydnabod y ffynhonnell drwy roi enw a nodi'r dull cyfathrebu (John Jones, sylw personol; David Davies, *mewn llythyr.*).

Mae deunydd arall sydd heb ei gyhoeddi ar ffurf dogfennau. Mae'r rhain yn aml i'w gweld mewn Archifau Cyhoeddus. Yma, dylech ddyfynnu'r rhifau catalog a ddefnyddir gan y archif. Felly os oedd eich ffynhonnell yn y Public Record Office, byddai eich cyfeiriad yn darllen fel hyn: PRO.Chancery Misc. 34/5. Mae angen fel arfer defnyddio byrfoddau ar gyfer y math hwn o gyfeiriad, a nodi'r rhain yn y llyfryddiaeth. Weithiau mae'n ddefnyddiol rhestru'r dogfennau ar wahân yn y Llyfryddiaeth, yn ôl yr archif.

4.6 Cyfeiriadau Electronig

Gellir crybwyll cyfeiriadau electronig yn yr un ffordd â'r lleill, gan ddefnyddio'r systemau uchod. Yn yr achos hwn, byddai teitl dogfen yn ymddangos yn lle teitl llyfr neu erthygl a dylid nodi'r math o ffynhonnell electronig. Felly:

Ar gyfer erthyglau ar CD-ROM:
Awdur, dyddiad, teitl y ddogfen, manylion y cylchgrawn, teitl y CD-ROM os yn wahanol i deitl y cylchgrawn, fersiwn a dyddiad

Ar gyfer dogfennau ar y We Fyd Eang:
Awdur (os yn berthnasol), blwyddyn, teitl y ddogfen, WWW, lleoliad y ddogfen (cyfeiriad ar y we), y dyddiad y buoch yn ei defnyddio.

Ar gyfer Cylchgrawn Electronig ar y We Fyd Eang
Awdur, dyddiad, teitl y ddogfen, manylion am y cylchgrawn, WWW, lleoliad y ddogfen (cyfeiriad ar y we), y dyddiad y buoch yn ei defnyddio.

Rhestr drafod Ebost:
Awdur, blwyddyn, llinell bwnc y neges, Ebost, cyfeiriad electronig y grŵp trafod, dyddiad y neges.

Cofiwch
Bwriad nodi cyfeiriadau yw dangos lle y cawsoch eich gwybodaeth a galluogi rhywun arall i wirio neu ddarllen eich ffynhonnell. Rhaid i chi ddefnyddio system sydd yn sicrhau bod hyn yn digwydd mor rhwydd â phosib. Mae cyfeiriadau aneglur yn achosi llawer o drafferth i rywun sydd am gael gafael ar y ffynhonnell wreiddiol.

4.7 Y Canllaw Dysgu

Mae'r canllaw hwn yn cynnig cyngor ar sut y gallwch ddatblygu ffyrdd effeithiol o astudio, fel eich bod yn gwneud y mwyaf o'ch profiad dysgu ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gallwch fynd at y Canllaw Dysgu drwy ein gwefan:
http://www.caerdydd.ac.uk/learn/student_information/the-learning-guide.pdf

RHAN 7

Beth Nesaf? Gwybodaeth am Symud Ymlaen ac Astudio Pellach

Ar ôl i chi gwblhau eich Tystysgrif Addysg Uwch bydd nifer o bosibiliadau yn codi

1. Mynd i gyrsiau Tystysgrif eraill

Efallai y byddwch am drio un (neu un arall) o'n Tystysgrifau Sylfaenol mewn pwnc penodol, er mwyn ehangu maes eich diddordebau.

2. Symud ymlaen i waith ar Lefel 2

Efallai y byddech yn hoffi trio un o'n cyrsiau Lefel 2. Gellir defnyddio nifer o'r rhain fel rhan o Dystysgrif Astudiaethau Pellach mewn pwnc penodol, neu Ddiploma Addysg Uwch (gweler Rhan 5).

3. Troi at addysg uwch amser llawn

Mae'n bosib defnyddio ein cyrsiau ni er mwyn symud ymlaen i astudio ar gwrs gradd. Maent yn dystiolaeth diweddar o'ch gallu i astudio ar lefel cwrs gradd, boed hyn ar ôl i chi ddilyn cwrs lefel A yn y gorffennol ai peidio. Os ydych am i'ch modiwlau gyfrif tuag at eich gradd bydd rhaid iddynt gyfateb i fodiwlau o fewn y cynllun gradd. Mewn rhai achosion mae hyn yn bosib. Os ydych yn meddwl am symud ymlaen i weithio tuag at radd neu gymhwyster olraddedig byddai'n syniad da siarad ag un o'n darlithywr cydlynol. Os ydych yn sicr pa gwrs rydych am ei ddilyn mae'n aml yn ddefnyddiol iawn siarad â thiwtor derbyn y cwrs hwnnw er mwyn cael syniad o'r ffordd orau i baratoi ar gyfer y cwrs cyn i chi ddechrau. Gan ddibynnu ar eu profiad blaenorol, o ran addysg a phrofiad arall, gall fod angen i fyfyriwr wneud mwy neu lai o waith ymlaen llaw. I nifer o fyfyrwyr, y Dystystgrif Sylfaenol fydd y ffordd orau i baratoi.

4. Mwynhewch!

Mae gennych erbyn hyn wybodaeth lawer ehangach am y pwnc neu ystod o bynciau. Defnyddiwch y wybodaeth honno! Ymunwch â'r Gymdeithas honno. Ymwelwch â'r amgueddfeydd hynny. Ewch dramor a defnyddio'r iaith. Chwiliwch am bobl sydd yn ymddiddori yn eich maes newydd. Dyma bwrpas Addysg Gydol Oes.

ATODIAD 1
CANOLFAN CAERDYDD AR GYFER ADDYSG GYDOL OES

1. Rheoliadau ar Gyfer Cynllun Astudio Modiwlar yn Arwain at Dystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol

1 CYFFREDINOL

Dylid darllen y rheoliadau hyn ar y cyd â Rheoliadau Senedd Prifysgol Caerdydd ar gyfer Cynlluniau Astudio Modiwlar Israddedig, a dylent gydymffurfio â hwy.

2 GOFYNION AR GYFER MYNEDIAD

Nid oes gofynion ffurfiol ar gyfer mynediad i'r Cynllun Astudio ond, lle bo modiwl yn gofyn am sgil neu gymhwyster rhagarweiniol, rhaid i fyfyrwyr ddangos eu bod yn medru bodloni'r gofynion hyn.

Lle bo anghytuno parthed addasrwydd myfyriwr ar gyfer cael ei d/dderbyn i'r Cynllun Astudio yn ei gyfanrwydd, neu i unrhyw fodiwl penodol, Pennaeth y Ganolfan drwy drafodaeth gyda'r Bwrdd Astudiaethau fydd â'r penderfyniad terfynol.

3 STRWYTHUR Y CYNLLUN

Cynllun astudio rhan-amser yw hwn.

4 TERFYN AMSER

Rhaid cwblhau'r cynllun o fewn 10 mlynedd.

5 CYNLLUN ASTUDIO

Y Cynllun Astudio fydd y modiwlau a restrir yng Nghatalog Modiwlau'r Ganolfan, fydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r rheoliadau hyn.

6 ASESU

6.1 Cynhelir asesiadau yn unol â Rheoliadau Senedd Prifysgol Caerdydd.

6.2 Gwneir y penderfyniad ar y dull asesu ar gyfer pob modiwl gan y bwrdd Perthnasol yn y Ganolfan, yn dilyn argymhelliad gan y Bwrdd Astudiaethau, ac fe'i nodir ar y disgrifiad modiwl a gymeradwyir.

7 SYMUD YMLAEN

Nid oes rheolau symud ymlaen o fewn y cynllun hwn.

8 CYMHWYSTER

Ar ddiwedd pob blwyddyn, bydd Bwrdd Arholi'r Ganolfan yn ystyried canlyniadau pob ymgeisydd ym mhob modiwl a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn honno. Bydd myfyriwr sydd wedi ennill o leiaf 120 o gredydau ar Lefel 1 neu lefel uwch, lle enillwyd yr holl gredydau o fewn y 10 mlynedd flaenorol, yn gymwys i dderbyn Tystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol.

ATODIAD 2
CANOLFAN CAERDYDD AR GYFER ADDYSG GYDOL OES

2. Rheoliadau ar Gyfer Cynllun Astudio Modiwlar yn Arwain at Ddiploma Addysg Uwch y Brifysgol

1 CYFFREDINOL

Dylid darllen y rheoliadau hyn ar y cyd â Rheoliadau Senedd Prifysgol Caerdydd ar gyfer Cynlluniau Astudio Modiwlar Israddedig, a dylent gydymffurfio â hwy.

2 GOFYNION AR GYFER MYNEDIAD

Er mwyn dechrau ar y Cynllun Astudio rhaid bod gan ymgeiswyr 120 o gredydau ar Lefel 1 neu lefel uwch yn barod, neu bod â chymwysterau cyfatebol.

Lle bo anghytuno parthed addasrwydd myfyriwr ar gyfer cael ei d/dderbyn i'r Cynllun Astudio yn ei gyfanrwydd, neu i unrhyw fodiwl penodol, Pennaeth y Ganolfan drwy drafodaeth gyda'r Bwrdd Astudiaethau fydd â'r penderfyniad terfynol.

3 STRWYTHUR Y CYNLLUN

Cynllun astudio rhan-amser yw hwn. Mae'r modiwlau sydd yn y Cynllun wedi eu grwpio yn ôl maes astudio, a bydd angen i fyfyriwr ennill 60 o gredydau ar Lefel 2 o bob un o ddwy uned pwnc er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Diploma Addysg Uwch.

4 TERFYN AMSER

Rhaid cwblhau'r cynllun o fewn 10 mlynedd.

5 CYNLLUN ASTUDIO

Y Cynllun Astudio fydd y modiwlau a restrir yng Nghatalog Modiwlau'r Ganolfan, fydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r rheoliadau hyn.

6 ASESU

6.1 Cynhelir asesiadau yn unol â Rheoliadau Senedd Prifysgol Caerdydd.

6.2 Gwneir y penderfyniad ar y dull asesu ar gyfer pob modiwl gan y bwrdd Perthnasol yn y Ganolfan, yn dilyn argymhelliad gan y Bwrdd Astudiaethau, ac fe'i nodir ar y disgrifiad modiwl a gymeradwyir.

7 SYMUD YMLAEN

Nid oes rheolau symud ymlaen o fewn y cynllun hwn.

8 CYMHWYSTER

Ar ddiwedd pob blwyddyn, bydd Bwrdd Arholi'r Ganolfan yn ystyried canlyniadau pob ymgeisydd ym mhob modiwl a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn honno. Bydd myfyriwr sydd wedi ennill 120 o gredydau ar Lefel 2 neu lefel uwch, a'r rhain yn 60 o gredydau o bob un o ddwy uned bwnc, yn gymwys i dderbyn Diploma Addysg Uwch y Brifysgol.

ATODIAD 3
CANOLFAN CAERDYDD AR GYFER ADDYSG GYDOL OES

3. Confensiynau'r Byrddau Arholi

Rhagarweiniad

Mae'r Byrddau Arholi ar gyfer y Dystygrif a'r Ddiploma Addysg Uwch yn system ddeublyg, sydd yn cynnwys Byrddau Arholi Pwnc ar gyfer pob maes astudio o fewn y Cynlluniau, a Byrddau Arholi terfynol ar gyfer y Dystysgrif a'r Ddiploma Addysg Uwch. Gan fod modd cyfrif pob un o'r modiwlau Lefel 1 a 2 sydd ar gael ar hyn o bryd tuag at y Dystysgrif, os yw'r myfyriwr yn dymuno hynny, bydd yn gyfleus ystyried canlyniadau'r holl fodiwlau Lefel 1 a 2 gyda'i gilydd. Cyfrifoldeb y Byrddau gwahanol, fodd bynnag, fydd y radd a ddyfernir i fyfyrwyr unigol.

Tystysgrif Addysg Uwch

Dylid darllen y confensiynau hyn ar y cyd â Rheoliadau Senedd Prifysgol Caerdydd ar gyfer Cynlluniau Astudio Modiwlar Israddedig.

- Daw'r Dystysgrif Addysg Uwch yn ei chyfanrwydd o dan yr un confensiynau.
- Nodir y Dystysgrif Addysg Uwch fel Pasio neu Fethu.
- Nid yw'r Bwrdd Arholi yn defnyddio'r ddarpariaeth sydd yn Rheoliadau'r Senedd a dyfarnu credydau ar gyfer hyd at ddau fodiwl a fethwyd, h.y. rhaid i fyfyriwr ennill 120 o gredydau er mwyn ennill y Dystysgrif Addysg Uwch, heb gymryd i ystyriaeth unrhyw fethiannau.
- Defnyddia'r Bwrdd Arholi'r confensiynau dilynol parthed samplo papurau arholiad, profion yn y dosbarth ac asesiadau o fewn y cwrs:

Byrddau Arholi Pwnc:

Ar gyfer pob modiwl, ar wahân i'r lle cytunwyd hyn gyda'r safonwr mewnol, rhoddir i'r Safonwr Mewnol priodol o leiaf dri darn o waith a aseswyd o bob elfen yn y cynllun asesu, o dri myfyriwr gwahanol, un â marc uchel, un â marc canolig, ac un â marc isel. Lle dysgir yr un modiwl gan fwy nag un tiwtor, dylai'r sampl gynnwys o leiaf dri darn o waith o'r cyrsiau a ddysgir gan bob tiwtor. Lle bo natur yr asesu yn golygu nad yw hyn yn briodol, bydd y Cydlynydd a'r Safonwr Mewnol yn cytuno ar sampl gwahanol. Gan mai'r gwahaniaeth rhwng Pasio a Methu sydd yn bwysig ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwch, dylid ychwanegu unrhyw waith sydd â marciau rhwng 38% a 42% at unrhyw sampl o waith a ystyrir gan y Safonwr Mewnol. Mae gan y Safonwr Mewnol yr hawl i weld unrhyw waith a aseswyd sydd heb fod yn y sampl, neu'r cyfan ohono.

Bwrdd Arholi'r Ganolfan:

Bydd y sampl o waith a welwyd gan bob un o'r Safonwyr Mewnol ar gael i Arholwyr Allanol y Cynllun, ynghyd â sylwadau ysgrifenedig y Safonwr Mewnol a chofnodion y Bwrdd Arholi Pwnc. Mae gan Arholwyr Allanol y Cynllun yr hawl i weld unrhyw waith a aseswyd sydd heb fod yn y sampl, neu'r cyfan ohono.

- Cyfrifoldeb y Bwrdd Arholi Pwnc yw crynhau marciau. Caiff marciau canran eu crynhau i fyny lle bo'r marc yn .5 neu uwch, a'u crynhau i lawr pan fo'r marc yn .49 neu is, ar wahân i'r sefyllfa ganlynol:

Y ffin dyngedfennol yn y Dystysgrif Addysg Uwch yw'r un rhwng Pasio a Methu. Fel canlyniad, caiff yr holl waith sydd â marc rhwng 38% a 42% ei ychwanegu at y sampl a ystyrir gan Arholwr Allanol y pwnc, ac ni chaiff marciau eu crynhau cyn y drafodaeth honno. Ar gyfer modiwlau lefel 2, caiff yr holl waith sydd â marc rhwng 68% a 72% ei ystyried gan y Bwrdd Arholi Pwnc, ac ni chaiff marc canran o 69.5% ei grynhau cyn y drafodaeth.

- Dylid bob amser cymryd i ystyriaeth y ffaith bod y myfyrwyr ar y Cynllun yn oedolion, yn astudio rhan amser, ac yn debygol o fod â chyfrifoldebau teuluol a chyfrifoldebau eraill wrth ystyried amgylchiadau arbennig. Caiff amgylchiadau arbennig eu hystyried yn gyntaf gan y Bwrdd Arholi Pwnc, a dylid cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Arholi Cynllun drwy gyfrwng Cofnodion y Bwrdd Arholi Pwnc.
- Nid yw'r Bwrdd Arholi yn defnyddio arholiadau viva voce.
- Cyfrifoldeb y Bwrdd Arholi Pwnc yw trefnu cyfle i ail-sefyll modiwlau, a dylid adrodd i Fwrdd Arholi'r Ganolfan drwy gyfrwng Cofnodion y Bwrdd Arholi Pwnc.
- Mae'r Byrddau Arholi Pwnc yn argymell canlyniadau i Fwrdd Arholi'r Ganolfan. Bwrdd y Cynllun, wrth drafod gyda'r arholwyr allanol, a all newid neu gadarnhau canlyniadau.

Diploma Addysg Uwch

Ystyrir y canlyniadau ar gyfer yr holl fodiwlau Lefel 2 gan Fwrdd Arholi'r Ganolfan Bwrdd Arholi'r Ddiploma Addysg Uwch yn unig sydd yn monitro cynnydd myfyrwyr sydd wedi ymrestru ar y Ddiploma ac yn dyfarnu'r Ddiploma ei hun.

Dylid darllen y confensiynau hyn ar y cyd â Rheoliadau Senedd Prifysgol Caerdydd ar gyfer Cynlluniau Astudio Modiwlar Israddedig, a chonfensiynau Bwrdd Arholi'r Dystysgrif Addysg Uwch (uchod).

- Er mwyn ymrestru ar y Ddiploma rhaid bod ymgeiswyr wedi ennill 120 o gredydau ar lefel 1, neu uwch, neu gymhwyster cyfatebol.
- Mae modiwlau'r Cynllun hwn wedi eu dosbarthu yn ôl maes astudio, a rhaid i fyfyrwyr ennill 60 o gredydau ar Lefel 2 o ddau grŵp pwnc penodol er mwyn ennill Diploma Addysg Uwch.

- Gall myfyrwyr gynnig 20 o gredydau o fodiwl(au) ar Lefel 2 mewn pwnc arall perthnasol yn lle y rheini sydd fel arfer ar gynnig yn y maes y maent yn ei astudio.

Fel arall, mae Confensiynau'r Bwrdd Arholi ar gyfer y Ddiploma Addysg Uwch yn union yr un â'r rheini ar gyfer y Dystysgrif Addysg Uwch, ar wahân i'r canlynol:

- Nodir y Ddiploma Addysg Uwch fel Pasio neu Ragoriaeth. Pasio yw marc cyfartalog wedi ei grynhau rhwng 40% a 69%. Rhagoriaeth yw marc cyfartalog wedi ei grynhau dros 70%, gydag o leiaf 60% yn y ddau bwnc a ddewiswyd. Dylid, fodd bynnag, nodi nad yw'r Bwrdd Arholi yn dilyn trefn Rheoliadau'r Senedd a dyfarnu credydau mewn hyd at ddau fodiwl a fethwyd. Fel canlyniad, rhaid i ymgeisydd basio modiwlau gwerth 120 o gredydau i ennill Diploma, a hyn heb ystyried unrhyw fodiwlau a fethwyd.
- Cyfrifir y marciau ar gyfer y Ddiploma, yn gyntaf, ar sail cyfartaledd y marciau o'r holl fodiwlau a basiwyd. Nid oes rhaid i ymgeisydd ar gyfer y Ddiploma ennill rhagoriaeth yn y ddau faes astudio er mwyn ennill rhagoriaeth ar gyfer y Ddiploma yn gyffredinol. Fodd bynnag, ni ddyfernir Rhagoriaeth fel arfer os yw'r marciau mewn un maes yn is na 60%.
- Lle mae ymgeisydd wedi ennill marc cyfartalog crai o 68.5% neu uwch gall y Bwrdd Arholi Diploma ystyried dyfarnu Rhagoriaeth. Wrth wneud hyn, gall ystyried gwaith yr ymgeisydd yn y ddau faes 60-credyd a ddilynwyd a chytuno i ragoriaeth glir mewn un maes wneud yn iawn am waith gwannach yn y llall. Gall hefyd ystyried y drefn y dilynwyd y modiwlau, er mwyn nodi (a gwobrwyo) safon y modiwlau diweddaraf mewn maes penodol.
- Bydd marciau sydd yn dod i'r Bwrdd Diploma wedi eu hystyried yn barod gan y Bwrdd Arholi Pwnc a'r Bwrdd Tystysgrif. Nid fydd y Bwrdd Diploma felly, fel arfer yn newid marciau'r ymgeisydd mewn modiwlau penodol. Ei rôl yw penderfynu ar radd gyffredinol ymgeiswyr sydd wedi pasio'r nifer angenrheidiol o fodiwlau yn barod.

Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes



Allwedd

Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes (1)

Yr Adran Gerddoriaeth (2)

Y Prif Adeilad
gan gynnwys Ysgol y Biowyddorau (3)

Theatr y Sherman (4)

Adeilad y Dyniaethau – Mae maes parcio'r Dyniaethau ar agor gyda'r nos o 4.30pm a thrwy'r penwythnos ar gyfer myfyrwyr sy'n dod i ddosbarthiadau (5)

Maes Parcio Senghennydd – Mae maes parcio'r Ganolfan ar agor gyda'r nos o 4.30pm a thrwy'r penwythnos ar gyfer myfyrwyr sy'n dod i ddosbarthiadau (6)

Yr Adran Gyfrifiadureg (7)

Adeilad Julian Hodge (8)

BUS STOP ***Bysiau i'r ganolfan: 35A, 52, 52A, 57 a 58***
Taith gerdded dwy funud o orsaf trenau Cathays

Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes
Ffordd Senghennydd, Caerdydd CF24 4AG
Ffôn: 029 2087 0000 Ffacs: 029 2066 8935
Ebost: dysgu@caerdydd.ac.uk www.caerdydd.ac.uk/learn

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD